

# ECO'R WYDDFA

RHIF 359

HYDREF 2008

PRIS 40c

## Yn y rhifyn hwn:

Dysgwr Cyntaf yn Cyrraedd  
Cymru o'r Wladfa tud. 2


Aduniad 50 mlynedd tud. 4

Taith Côr Meibion

Dinas Bangor i Wlad Belg tud. 19

## GENOD (RHYNGWLADOL) LLEOL!

### Wedi bod...



#### PROFIAD ANHYGOEL BEIJING

DYMA adroddiad Llinos Mair o Fethel, athrawes ymarfer corff yng Nghaernarfon ac Ysgrifenyddes Clwb Hoci Caernarfon. Diolch iddi am rannu rhan o'r rhyfeddod a'r awyrgylch o'r Gemau a ddisgrifwyd fel y 'gorau erioed'.

\*\*\*

Big Buddha yn Hong Kong. Pandas yn Chongqing. Mordaith ar yr afon Yangtze. I fynyr tŵr yn Shanghai. Terracotta Warriors yn Xi'an. Ac, ar ôl tair wythnos o deithio, mi gyrhaeddais Beijing!

Bûm yn trefnu'r daith ers y Nadolig. Llogi gwestai, awyrennau a thripiâu, a'r pwysicaf oll archebu tocynnau i weld gwahanol agweddau o'r Gemau Olympaidd. Roeddwn yn gwireddu breuddwyd plentyndod wrth fynychu'r Gemau. Sylweddolais tipyn o flynyddoedd yn ôl na fuaswn i byth yn cael mynychu'r Gemau fel cystadleuydd, felly setlo am yr ail orau, sef gwyliwr 'byw' o'r achlysur anhygoel yma.

Cefais docynnau ar gyfer pêl-fasged, pêl-foli, pêl-droed a hoci. Y prif atyniad, serch hynny, oedd y rhwyfo a'r athletau. Gwelais ddwy sesiwn olaf y rhwyfo. Roedd y ganolfan awr allan o'r ddinas a chefais sedd yng nghanol y Barmy Army a'u fflagiau Jac yr Undeb! Sôn am awyrgylch. 'GO GB'

oedd y gri, a thros y ddau ddiwrnod llwyddodd Prydain i ennill 2 aur, 2 arian a 2 fedal efydd, gyda Chymry yn eu mysg. Roedd awyrgylch arbennig yn ystod yr anthemau a gorymdaith enillwyr y medalau.

Yr uchafbwynt, wrth gwrs, oedd y 'Birds Nest'. Bûm ynddo ar gyfer tair sesiwn o athletau. Y stadiwm yn llawn i'r ymylon, yn gymysgedd o bob lliw a llun, sŵn byddarol a'r ddisgwyliedig *Mexican Wave*. Ar y nos Fawrth gwelais dim Prydain yn ennill dwy fedal arian yn y naid uchel ac yna camp anhygoel Christina Ohrougu yn cipio'r aur yn y 400m.

Ar yr un noson gweld seren 'Y Nyth', Usain Bolt yn rhedeg ras cyn-derfynol y 200m. Ni welais y ffeinal ond roedd yn amlwg fy mod yn dyst i ymddangosiad gwir seren a fuasai'n chwalu sawl record byd. Cefais ei weld ar noson arall yn rhedeg ras derfynol y 4x100m. Roedd fy sedd gyferbyn â man trosglwyddo Bolt i Powell. Trydydd medal

aur i Bolt, trydydd record byd. Roeddwn i yno!

Taith fythgofiadwy oedd hon. Llwyddiant anhygoel i Brydain, a chanmoliaeth anhygoel i ddarpariaeth a

threfniadaeth pobl Beijing. Mae her anhygoel yn wynebu criw trefnwyr Llundain i gynnal y fath safon yn 2012. Un peth sy'n sicr, byddaf yno yn gwylio.

### Gobeithio mynd...



Wendy yn gobeithio creu argraff yng nghegin Casa Dudley

### ...i Sbaen

Ffrindiau Wendy Thomas o Lanrug a'i perswadiodd i gystadlu yng nghyfres *Casa Dudley 2008*, a da o beth iddynt wneud hynny gan ei bod yn un o'r 12 o gogyddion brwd sydd wedi cyrraedd rowndiau agoriadol y gyfres newydd sy'n dechrau ar S4C ar 29 Hydref am 8.25pm.

Bydd Wendy, sy'n Weinydddydd Ardal i Cartrefi Cymru a Rheolwr Blaen Tŷ yn y Galeri, Caernarfon, yn gwneud ei gorau glas i greu argraff yn y gyfres.

Bydd yn rhaid iddi baratoi pryd sawrus o dan oruchwyliaeth Dudley Newbery, ei gyd-gyflwynydd, Emma Walford, a'r gogyddes,

Llinos Wood, cyn clywed a yw hi'n cael teithio i Ronda, Sbaen, lle cynhelir rowndiau terfynol Casa Dudley.

Hoff rysâit Wendy yw Pwddin Taffi Gludiog (*Sticky Toffee Pudding*), a'i hoff gogyddion yw Jamie Oliver a James Martin. Ei diléit yw coginio bwydydd o ardal Môr y Canoldir.

Meddai Dudley Newbery, 'Mae'r safon yn anhygoel o uchel yn y gyfres newydd hon o *Casa Dudley*, gyda phob cystadleuydd yn llawn brwdfrydedd. Bydd y prydau mae pawb yn eu creu yn cynnig digon o ysbrydoliaeth.'

Bydd ryseitiau'r gyfres i gyd i'w gweld ar wefan *Casa Dudley* - [s4c.co.uk/casadudley](http://s4c.co.uk/casadudley).



# ECO'R WYDDFA

**RHIF 359  
HYDREF 2008**  
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg  
i'r cyhoeddiad hwn.

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Tim Golygyddol**  
Erthyglau a newyddion  
at ohebwyr pentref neu i  
Penarth  
Ffordd yr Orsaf  
LLANRUG LL55 4BA

**Straeon ac erthyglau ar e-bost**  
alwena@gwasgwynedd.com  
storiau@ecorwyddfa.co.uk

**CADEIRYDD  
Y PWYLLGOR GWAITH**  
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**  
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.  
(01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**  
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**  
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,  
Llanberis (870740)  
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**  
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHANT POST**  
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD BWNDELU**  
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,  
Dinorwig (870292)

## GOHEBWYR PENTREFI

**DEINIOLLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran  
(01248) 670726

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-  
Williams, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn  
Gwna (677438)

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt,  
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts,  
Sŵn-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn  
(675384)

**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant  
Ffynnon (871820)

**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth  
(872407)

**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry,  
Ael-y-Bryn (872276)

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon,  
Waunfawr (650570)

**Y RHIFYN NESAF**  
Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol  
**DYDD LLUN, 20 HYDREF**  
Os gwelwch yn dda  
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg  
**NOS IAU, 30 Hydref**  
Dyddiad Gosod  
**SUL 26 HYDREF am 5.00**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

| Rhifyn   | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble       | Cysylltu â     | Rhif Ffôn |
|----------|--------------|---------------|-----------|----------------|-----------|
| Tachwedd | 20 Hydref    | 30 Hydref     | Llanberis | Eifion Roberts | 870 740   |
| Rhagfyr  | 17 Tachwedd  | 27 Tachwedd   | Caethro   | Clive James    | 677 438   |

## Llythyrâu

*Ymateb i'r llun, 'Aelodau Côr Adrodd  
Llanrug', ar dudalen 3 o rifyn  
Mehefin o'r Eco.*

24 Ascot Court  
Craig-y-Don  
Llandudno

Mae gan fy chwaer a minnau gof  
am y llun yn rhifyn Mehefin,  
ond nid yw o'r côr adrodd. Llun  
yw o bwyllgor lleol yn darparu  
gwahanol ffyrdd o gasglu arian  
at glybiau fel pensiynwyr y fro.

Llinos Gwynedd yw y ferch  
gyda Myfanwy o'r Bryn mewn  
gwisg Gymreig. Y drydedd  
ferch yn y cefn, agosaf at Annie  
Williams, yw Gay Williams a'r  
bumed yw Ceridwen Roberts a  
Mrs Hughes o'r Ceunant. Y  
drydedd o'r chwith yn yr ail res  
yw Nel Owen a'r drydedd o'r  
chwith yn y rhes flaen yw  
Gwladys Thomas.

O ddiddordeb i rai o'r  
darllenwyr, Myfanwy o'r Bryn a  
wnaeth gysylltu â theulu ym  
Melbourne, Awstralia, i  
'nominatio' y gŵr, y diweddar  
John, a minnau a'r plant i fyned  
drosodd yno i fyw yn 1963.

Mae gennyf lawer o luniau  
o'r côr adrodd, gwahanol oed yn  
fy meddiant. Roeddynt yn cael  
eu hyfforddi gan fy mam, Bessie  
Jones.

Yn gywir,  
NAN


## RHODDION

£20: Geraint Morris, Foelas,  
Deiniolen.

£10: Goronwy a Heulwen,  
Stryd Ceunant, Llanberis;  
Miss Kate Owen, 58  
Llanbeblig Flats, Caernarfon;  
Er cof am Mrs Elizabeth Mary  
Williams, Deiniolen a  
Llanrug.

£5: Mrs Margaret Griffiths, 7  
Llainwen Isaf, Llanberis;  
Mona, 17 Dôl Eilian,  
Llanberis; Cheryl Williams,  
Dôl Afon, Cwm-y-Glo; John  
Evans, Pen Parc, Bethel; Beryl  
Griffiths, Deiniolen; Geraint  
Parry, Bethel.

Mae'n rhaid i mi siarad  
hefo rhywun



**Y SAMARIAID**  
(01248) 674985



## Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

### Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol  
Supporting voluntary and community groups

### cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol  
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271

## Y CYFARFOD BLYNYDDOL

Prin iawn, unwaith eto, oedd y  
nifer a ddaeth i'r Cyfarfod  
Blynnyddol yn y Sefydliad Coffa  
yn Llanrug nôs Fercher, 17  
Medi. Pump o garedigion yr Eco  
oedd yn bresennol, gyda dau  
wedi cyflwyno eu  
ymddiheuriadau gan eu bod  
allan o'r wlad ar eu gwyliau.

Er bod y gynrychiolaeth yn  
denau cafwyd trafodaeth  
fuddiol ar nifer o faterion  
pwysig yn ymwneud â'r Eco.

Mynegwyd pryder am y  
diffyg sicrwydd ynglŷn â  
chyfrifoldeb am osod yr Eco ar y  
pedwerydd nos Sul o bob mis.  
Mae'r gwaith yn cael ei gwblhau  
bob mis ond ambell fis mae'r  
gwaith yn disgyn ar ysgwyddau  
un neu ddau yn unig.

Taer erfynnir am fwy o  
wirfoddolwyr i ymgymryd â'r  
dasg yma. O gael digon o griw,  
byddai pump neu chwech yn  
ysgafnhau'r baich yn sylweddol.  
Y cwbl a ofynnir amdano ydi  
tua 2 awr o amser bob mis, neu  
bob yn ail fis pe byddai digon  
yn gwirfoddoli. Gall unrhyw un  
sy'n fodlon helpu roi eu henw i  
Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith  
(01248) 670726.

Mae'r plygu hefyd yn drwm  
iawn ar nifer fechan o  
wirfoddolwyr mewn ambell  
bentref - eto, petai digon yn troi  
allan, dim ond dwyawr o'ch  
amser unwaith y flwyddyn sydd  
ei angen. Byddai hynny'n  
ysgafnhau'r baich yn arw iawn.  
Cadwch lygad ar pa bryd mae  
mis eich pentref chwi i blygu, ac  
ewch i helpu!!

Adroddwyd bod y sefyllfa  
ariannol (gweler y fantolen) yn  
ddigon iach eleni ond bod y  
taliadau bron cymaint â'r  
derbyniadau am 07/08. I sicrhau  
dyfodol ariannol yr Eco  
penderfynwyd cyfyngu pob  
rhifyn i 24 tudalen, ar wahân i  
rifyn y Nadolig, a gofyn i  
glercod y Cynghorau Cymuned  
gyfyngu eu hadroddiadau i tua  
hanner tudalen neu 800 o eiriau  
yn unig.

Penderfynwyd hefyd godi  
pris yr Eco i £5 y flwyddyn o  
Ebrill 2009 ymlaen.

Penderfynwyd gofyn i'r  
Trefnydd Hysbysebion gysylltu  
â busnesau lleol nad ydynt yn  
hysbysu yn yr Eco yn barod i  
geisio eu cael i wneud hynny.

Cytunwyd hefyd i ofyn i  
bentrefi gwahanol, pawb yn eu  
tro, fod yn gyfrifol am blygu  
rhifyn Medi pob blwyddyn.

Dewiswyd tri cynrychiolydd  
i gysylltu â'r Wasg i drafod  
trefniadau'r dyfodol.



## Apêl Llosgfynydd Chaitèn

### – y Dysgwr Cyntaf yn Cyrraedd Cymru o'r Wladfa

Ar ddydd Gwener, Mai 2il 2008 fe ffrwydrodd llosgfynydd Chaitèn yn Chile gan chwydu fflamau a mwg filltiroedd i'r awyr. Cariwyd y llwch a'r lludw hynny dros y ffin i'r Ariannin gan effeithio'n ddrwg ar drigolion Godre'r Andes lle mae 'na gymdeithas Gymraeg gref. Roedd hwn y tro cyntaf i Chaitèn ffrwydro ers mwy na 9,000 o flynyddoedd. Am gyfnod daeth bywyd bob dydd i stop bron gyda siopau a swyddfeydd ar gau a dim trafniadaeth ychwaith am fod y ffyrdd i gyd ar gau. Roedd yr awdurdodau yn apelio ar bawb i beidio â mynd allan o gwbl os oedd asthma neu broblemau anadlu gyda nhw ac roedd yn rhaid i bobl wisgo mygydau rhag anadlu'r llwch a oedd yn disgyn fel eira o'r awyr am wythnosau. Roedd yr ysgolion i gyd ar gau am gyfnod gan gynnwys yr ysgolion Cymraeg yn Esquel a Threvelin.

Pan ddigwyddodd hyn roedd trafodaethau eisoes ar y gweill rhwng Menter Iaith Patagonia ag Urdd Gobaith Cymru ynglŷn â'r syniad o bobl ifanc o'r ardal yn derbyn hyfforddiant a phrofiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru. Ond oherwydd yr effaith anffodus ar ddarpariaeth gwersi a gweithgareddau Cymraeg yma yn ardal yr Andes yn sgil Chaitèn roedd hi'n bellach yn bwysig i geisio gweithredu'r prosiect yn gynt. Aethpwyd ati i roi'r trefniadau ymarferol yn eu lle ar frys a chyda cynnig pendant gan yr Urdd yr unig her oedd dod o hyd i gost y tocynnau awyren.

Pryd hynny glywsom ni gan Ceri Jones o Hwlfordd, Sir Benfro. Bob blwyddyn bydd Ceri yn dysgu fel athro ar gwr Cymraeg yn Llundain ac yn ceisio gwneud rhywbeth i godi arian at achosion Cymraeg yn ystod yr amser hynny. Eleni cystadlodd mewn triathlon a llwyddodd i godi dros £200. Yn sgil darllen amdanon ni yn y wasg penderfynodd ein dewis ni i dderbyn y nawdd y tro hwn. Wedi ein hysbrydoli gan y rhodd hael hon fe wnaeth Ysgol Gymraeg yr Andes a Menter

Iaith Patagonia apêl yn y wasg ac ar radio a theledu Cymru.

Fe wnaeth ymateb hael a thwymgalon pobl Cymru ein syfrdanu. Daeth llif o gyfraniadau, ac erbyn hyn rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod digon o arian wedi cyrraedd i ni ddanfod dau berson eleni. Mae un newydd gychwyn gydag un arall i ddilyn yn fuan. Yr un gyntaf i gyrraedd fydd Laura Niklitschek (23 oed) o Drevelin. Fe fydd hi'n aros am 6 mis yng



Laura Niklitschek.

Nghanolfan Preswyl Awyr Agored yr Urdd yn Llangrannog. Mae Laura wedi bod yn mynychu gwersi Cymraeg yn Ysgol Gymraeg yr Andes ers dwy flynedd bellach ac fe fydd yn parhau i ddysgu ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion yng Ngheredigion yn ystod ei arhosiad.

'Rwy'n edrych ymlaen yn arw at y profiad o gael gweld Cymru, dysgu mwy am ei diwylliant ac, wrth gwr, y cyfle i ddefnyddio a gwella fy Nghymraeg,' meddai Laura.

Ar ran Ysgol Gymraeg yr Andes a Menter Patagonia hoffwn ddiolch o galon i bawb yng Nghymru am wneud y profiad hwn yn bosibl iddi.

## Atgofion Hen Sgotwr

Y mis yma rwyf am roi ichi rai o'm hatgofion am yr hwyl a gefais gyda'r eog a'r gwyniad yn Afon Seiont yn ystod y pum a'r chwe degau.

Fel bron i bawb arall dechreuais bysgota eog gyda genwair droelli (*spinner*), ac wedi tipyn o ymarfer roeddwn yn dechrau cael ambell i lwc. Ond mae'n rhaid cyfaddef fy mod hefyd yn colli llawer ac, yn fwy na hynny, yn colli minnows yn yr afon ac yn y coed. Ond dois yn well a dysgu colli llai o gêr a hefyd bachu mwy o eogiaid.

Wedi dau dymor o ddefnyddio'r enwair droelli fe gefais ysfa i bysgota gyda phluen fawr, felly yn 1964 fe brynais enwair bluen fawr a ril, sydd wedi cael ei defnyddio tan y tymor hwn. Ond gyda chymorth oed a chryd-cymalau, roedd angen i mi gael rhai ysgafnach os am ddal ymlaen i bysgota pluen am eogiaid. Felly fe ddywedaf wrthyhych ychydig am lwyddiannau yr enwair sydd wedi ei defnyddio am dros ddeugain mlynedd, a hynny bob tymor.

Rwyf am gyfaddef wrthyhych ar y dechrau na fedrais fachu yr un eog gyda phluen yn nhymor 1964, ond mi fachais goed lawer gwaith, ac unwaith fuwch. Oedd, roedd ceisio dod â buwch oedd yn sownd mewn pluen eog yn dipyn o gamp. Roedd y bluen wedi mynd o amgylch ei chyrn ond, wedi hanner awr o chwysu poenus mi fedrais gael y bluen yn rhydd heb wneud niwed i anifail na genwair. Enw'r bluen oedd Thunder and Lightning, ac fe fyddai wedi bod yn fellt a tharanau pe bai'r ffarmwr wedi cael gwybod.

Ond, buan iawn y dois i drin y bluen fawr a dechrau bachu eogiaid.

Un diwrnod bythgofiadwy yn Medi 1967 roeddwn yn pysgota ar ddarn Crawia o'r Seiont. Yr amser hynny roedd yno un pwll gyda choeden yn rhoi cysgod dros ble yr arhosai'r eogiaid cyn

gwneud eu ffordd ymlaen i fyny'r afon. Erbyn heddiw mae'r pwll a'r goeden wedi diflannu, gwaetha'r modd.

Cofiaf y diwrnod hwnnw'n iawn – fe gefais bedwar eog mewn un prynhawn. Nid wyf wedi cael crystal hwyl erioed wedyn. Erbyn heddiw rwyf yn dra diolchgar os caf ddau mewn tymor.

Yr eog cyntaf i mi ei fachu â phluen oedd yn Llyn Doctor, union flwyddyn wedi prynu'r enwair bluen Sharps of Aberdeen, a'r bluen oedd y Dunkeld ac mae honno'n dal yn fy meddiant hyd heddiw. Rwy'n dal i ddefnyddio Dunkeld, ond nid yr un bluen, wrth gwr.

Roedd yr eogiaid yn dal i fyny'r Seiont yr amser hynny wedi'r trydydd llif ym Mehefin. Ac ambell dymor, deuent yn gynt.

Mae gennyf gof hefyd o bysgota gwyniadau (sewin) ar y Seiont ar fwy nag un achlysur wedi iddi nosi. Un tro sy'n dod i'm meddwl yw pan oeddwn yn pysgota ar y Marddwr yn ochr Brynrefail, neu i fod yn fwy manwl, ddim ymhell iawn o Stabla.

Roedd yn dra gwyntog ar y noson arbennig honno ac yn dywyll fel bol buwch, gyda lleuad yn ymddangos rhwng y cymylau. Rhywsut neu'i gilydd, fe fachais fy het ar y bluen dop, ac fel yr oeddwn yn taflu allan fe aeth fy het gyda'r bluen. Am ei bod yn chwythu cymaint fe fedrais gadw'r het yn hedfan heb fynd i'r afon. Ond beth nad oeddwn yn ei ddisgwyl oedd sgrech o'r ochr arall, sef ochr Cwm-y-Glo i'r afon, a rhywun yn gweiddi,

'Ysbryd, myn diawl.'

Mae hynny'n dod â gwên bob tro y byddaf yn mynd heibio'r llecyn hyd heddiw.

Oes mae llawer o atgofion yn dychwelyd, ond rhaid rhoi'r gorau iddi nawr tan y mis nesaf.

Hwyl ar y bachu,

R. ELWYN GRIFFITH

## Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

## Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

### TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-  
PENISARWAUN • DEINIOLEN • LLANRUG A LLANBERIS

Ffoniwch Dylan(Llys)

ar 871833

Symudol-07778127394

Gwasanaeth Teimladwy  
Urddasol a Phersonol  
24 awr y dydd  
Capel Gorffwys Preifet

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA  
Cyrraeddych Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce

AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



# ADUNIAD 50 MLYNEDD

Cynhaliwyd noson ddifyr o gyn-ddisgyblion Brynrefail yn y Fictoria, Llanberis, yn ddiweddar.

Roedd pawb oedd yn bresennol wedi cychwyn yn yr ysgol yn 1958 neu wedi ymuno â'r flwyddyn yn nes ymlaen.

Cafwyd noson ddifyr o sgwrsio, hel atgofion ac edrych ar hen luniau. Difyr hefyd oedd gweld rhai o athrawon y cyfnod a chael sgwrsio gyda hwy a chafwyd pryd blasus. Cynhaliwyd raffl a gwneud elw o £67 fydd yn cael ei gyflwyno i'r ysgol.

*Cefn (o'r chwith): Olwen, Meurig, Margaret Morris, Wendy, Dafydd Glyn, Pat, Gwyrfaï, Myfyr, Michael Lloyd, Michael Butler.*  
*Canol: Dafydd Whiteside, Isabel, Beti Wyn, Anita, Heddwyn, Alan Parry*  
*Eistedd: Dic Parry, R.T. Jones a Carol Hughes.*



## UN FUNUD FACH

### ARIAN

Wnaiff neb sy'n fy nabad gredu fy mod yn arfer cael marciau da yn yr arholiad cerdd yn yr ysgol erstalwm. Doedd gosod y nodau du a gwyn ar eu llinellau'n ddim trafferth o gwbl, nes i mi sylweddoli y dylen nhw gyfleu sŵn miwsig i'm clust. Dyna pryd yr aeth hi'n niwl arnaf ac y plymiodd y marciau! Roeddwn i'n iawn tra bod y nodau'n rhyw fath o symbolau y gellid eu gosod yn fathemategol yn eu lle. Doeddwn i'n gallu gwneud sŷms yn eithaf da? Fe ges i farciau llawn mewn arholiad Algebra unwaith (mae'n rhaid bod yr arholiadau'n haws erstalwm). Ond daeth y dydd pan syrthiodd y niwl dros y wers fathemateg hefyd, er nad mor drwchus â niwl y stafell gerdd. (Dwi'n dal i ddisgwyl i hwnnw godi!) A'r busnes 'ymarferol' yna oedd y drwg eto. Mae arnaf ofn bod mathemateg wedi mynd yn bwnc rhy ddyrys i mi tua'r adeg y dechreuwyd trafod pethau fel 'stocks and shares'.

Ac, ers hynny, mae dirgelion y byd ariannol a'r farchnad stoc, a buddsoddiadau a chyfraddau llog yn bethau na ddeallais fawr arnynt. Ac er yr holl drafod a fu ar yr argyfwng credyd a morgeisi dros y misoedd diwethaf, fedra i ddim honni fy mod yn deall yn union beth sy'n digwydd. Ond mae'n amlwg bod pawb yn poeni wrth weld sefydliadau ariannol yn gwegian. Mae sawl rheswm dros yr argyfwng, ac mae hyd yn oed greadur anwybodus fel fi yn

deall bod a wnelo trachwant yr arianwyr cyfoethog lawer i'w wneud â'r holl helynt.

Ond beth bynnag am hynny, mae'r argyfwng ariannol yn dangos o'r newydd, mewn ffordd boenus o bryderus i gynifer o bobl, mor gwbl ddi-fudd yw i neb roi ei ymddiriedaeth mewn cyfoeth a phethau materol. Y gwir dychrynlyd yw y gall y cyfan ddiflannu dros nos. Wrth gwrs bod pobl yn poeni pan welant gost morgeisi'n codi a gwerth buddsoddiadau'n syrthio. Wrth gwrs bod pobl yn ofni pan ddychmygant eu cynilion a'u pensiwn yn diflannu. Mae'r pethau hyn yn effeithio ar bawb ohonom mewn rhyw ffordd, ac mae'n naturiol bod yr holl ddarogan gwae yn ein digalonni.

Mor boenus o berthnasol, felly, yw'r ddameg honno gan Iesu Grist sy'n sôn am y ffermwr a gododd ysguboriau mwy a mwy i ddal ei gnydau, a'r cyfan wedyn yn cael ei gymryd oddi wrtho'n ddirybudd un nos. Gweddwn am gael ein harbed rhag y gwaethaf y gallai helyntion presennol y sefydliadau ariannol ei ddwyn arnom. (Does dim o'i le mewn gweddio felly gan fod Duw'n ymwneud â phob rhan o'n bywyd.) Ond diolchwn hefyd am gael ein hatgoffa nad yng nghyfoeth y byd hwn y cawn ein digonedd a'n cysur a'n gobaith pennaf. Mae'r pethau hynny i'w cael yn yr Un a roddodd y ddameg a'i rhybudd i ni.

JOHN PRITCHARD

## Dyddiadur EVAN JONES Tŷ'r Mawn

Y mis hwn fe edrychwn ar fis Medi a Hydref 1908:

9 Medi, 1908: Priodi John Brwyniog Jones yn Bangor ar ddydd Mercher.

10 Medi: Claddu gwraig Bob Roberts, Snowdon Street.

12 Medi: Claddu Owen Owens, Blaen y Ddôl.

15 Hydref: Priodi William John Evans, Pen Bont, ar ddydd Gwener.

25 Hydref: Marw Richard Williams, Bryn Coch, Llanrug.

Ac yn awr fe awn ymlaen i'r flwyddyn 1928:

10 Ionawr 1928: Claddu gwraig William Williams.

14 Ionawr: Claddu William Davies, Rock Terrace.

24 Ionawr: Claddu plentyn bach Bob Lewis, Glan Llyn.

25 Ionawr: Claddu Ellis Jones, Snowdon Street.

8 Chwefror: Claddu Mrs Jones, Llainwen, ac hefyd claddu Tedy Reidly.

16 Mai: Dydd Mercher cyfarfu Mr A. Hughes, Llwynceilyn, ei ddiwedd trwy syrthio i Twll Chwarel Glyn Uchaf.

12 Medi: Priodi Robert J. Roberts, Cwmeilir.

28 Medi: Claddu Orwig Williams, Plas Coch gynt.

29 Medi: Claddu Griffith Davies, Charlotte Street.

10 Hydref: Priodi Bessie Jones, Tyddyn Charles.

20 Tachwedd: Claddu J. Jones, Cae Padarn Villa.

1 Rhagfyr: Claddu gwraig Foulk, Fron Goch.

R. ELWYN GRIFFITH

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

THE LEGACY  
ROYAL VICTORIA HOTEL  
LLANBERIS

*wrth droed yr Wyddfa*

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903



# CHWILOTA

## HEN ENWAU



Soniais o'r blaen am enwau yn y fro sydd wedi hen ddiplannu. Enwau caeau sydd fwyaf cyffredin, wrth gwrs, ac y mae llawer o'r rheini wedi eu cofnodi ar fapiau'r Degwm sy'n dyddio o tua 1840. Ceir enwau caeau hefyd wedi eu cofnodi ar fapiau stâd cynharach. Ond mae caeau yn newid: mae dau neu dri o gaeau bychan yn cael eu huno'n un cae mawr oherwydd yr angen am ddefnyddio peiriannau modern i drin y tir. Os yw hynny'n digwydd, yna mae tri enw'n diflannu neu mae un yn unig yn cael ei gadw.

Ond nid caeau'n unig sydd wedi diflannu. Mae'n syndod cymaint o fân ffermydd a thyddynnod sydd wedi mynd i ddifancoll. O chwilota drwy hen ddogfennau yn dyddio'n ôl bedair a phum canrif, daw llawer o'r enwau hyn i'r amlwg.

Yn ddiweddar deuthum ar draws yr enw Tyddyn Ieuan Llwyd. Does unman o fewn y fro yn cario'r enw hwn heddiw, ond mae'r safle'n parhau i fodoli. Mae'r enw yn dyddio o gyfnod rhwng 1455 a 1624 – casgliad o ddogfennau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn ymwneud â thiroedd stâd Plas Llanfair, Llanfairisgaer. Roedd gan y stâd honno eiddo yng ngwaelodion plwyf Llanddeiniolen – lle sy'n cael ei adnabod gennym ni heddiw fel Bethel! Roedd gan y stâd eiddo hefyd yn ardal Rhosbodrual a Phontrug, Caethro a Phencefn.

Mewn dogfen dyddiedig 22ain o Awst 1609, cawn fod rhywun o'r enw Lewis ap Ieuan Lloyd o Fôn yn mynd â William Spicer o Gaernarfon i gyfraith oherwydd iddo hawlio tir yng Nghastellmai o'r enw Llety y bwth duy ar afon kynferch. A dyna awgrymu lleoliad Tyddyn Ieuan Llwyd.

Ardal weinyddol cyn sefydlu'r plwyfi sifil oedd Castellmai erstalwm ac y mae lle o'r enw Llety yno heddiw. A Ieuan Lloyd neu Ieuan Llwyd mae'n amlwg oedd yn berchen ar dyddyn yn yr un ardal. Ac i gadarnhau'r lleoliad, cawn fod un o'r dogfennau yn nodi mai cnw arall ar Dyddyn Ieuan Llwyd oedd Rhuddallt. A dyna osod y tyddyn yn union yn yr un ardal. Tybed ai methiant fu achos llys Lewis ap Ieuan Lloyd, ac i William Spicer, gŵr bonheddig o dref Caernarfon, lwyddo i gadw meddiant o'r tyddyn? Os hynny, does ryfedd i'r enw Rhuddallt barhau arno yn hytrach na'r hen enw gwreiddiol. Ac onibai am y dogfennau ar gadw yn Aberystwyth, fyddai neb ddim callach mai Tyddyn Ieuan Llwyd oedd yr hen enw diflanedig.

Yn yr un dogfennau ceir yr enwau canlynol: Tyddyn Talypont Ruke, Tythyn y

cloghyth, Tythyn Gwilym Weyth – i gyd yn uned weinyddol Rug, a Hen fuches, Tythyn y cwm glass, Cwm ffynnon, Bwlch y moch, a'r Gefnddel – i gyd yn uned weinyddol Dinorwig.

Yn 1557 ceir yr unig gyfeiriad y gwn i amdano o le o'r enw Mur yr Onnen, rhywle yn ardal Pontrug.

Enwau ffermydd eraill sydd wedi hen ddiplannu, ond sy'n cael eu cofnodi yn y casgliad yw Tyddyn John ap Robert Felinydd, Tyddyn Gwag (a ddaeth yn ddiweddarach yn enw ar gae yn ardal Pontrug), Tyddyn Teiliwr (cae arall ym Mhontrug). Mae enwau tyddynnod eraill wedi eu cofnodi mewn dogfennau eraill hefyd megis Tyddyn Gwerfil (1772 – yng Nghofrestr Plwyf Llanrug), a Tyddyn Ifor (1604 – yng nghasgliad papurau Emyr Thomas).

Dyna ddigon o enwau o ardal Pontrug a Chaeathro am y tro. Tybed a ddaw mwy o enwau i'r amlwg o blwyfi Llanberis a Llanddeiniolen maes o law?

### Llwybr y Carw – Ymddiheuriad

Yn rhifyn yr haf, soniais am enwau llwybrau, gan gynnwys Llwybr y Carw rhwng Nantperis a'r Twll Du, heibio i Lyn y Cwn. Camgymeriad! Nid dyna'r enw ar y llwybr, ac nid oes sicrwydd fod enw i'r llwybr hwnnw hyd yn oed. Ond mae Llwybr y Geifr yn arwain o'r Garn i lawr tuag at y Twll Du, ac fel y profais dros y ddau Sadwrn diwethaf, llwybr addas i cifer yn unig yw hwnnw!

### Crochendy Melin Wen


Un yn unig a gysylltodd ynglŷn â'r llun o grochenwaith o'r tu allan i'r Felin Wen ym Mhontrug. Gyda diolch i Ann (Owen gynt o Dyddyn Corn) am wybodaeth. Soniodd fel y daeth gŵr a gwraig i fyw i ardal Pontrug tua diwedd yr Ail Ryfel Byd ac adeiladu Nissen huts yn y cae tu cefn i'r Felin Wen. Credai fod y wraig o dras bonheddig, a'i mam â theitl i'w henw. Roedd y gŵr unai yn berchen neu yn gweithio fel rheolwr ar y felin/crochendy. Aeth y briodas ar chwâl a gadawsant yr ardal. Bu'r Nissen

huts yno am rai blynyddoedd wedyn.

Dyna'r cof plentyn sydd ganddi am y crochendy, ond byddai plant ardal Pontrug yn mynd i'r afon islaw i chwarae er gwaethaf rhybuddion eu rhieni o'r peryglon, gan fod pyllau clai yn yr afon. Tybed ai'r clai hwnnw a gâi ei ddefnyddio yn y crochendy?

### Creiriau diddorol

Ym meddiant Carys Parry o Lanrug mae 'baner' enfawr yn dymuno 'Hir oes a Dedwyddwch' – ond i bwy? Mae'n amlwg fod y faner wreiddiol wedi ei haddasu a'i hail-ddefnyddio, oherwydd o graffu'n fanwl ar y defnydd gellir darllen yr enw Assheton Smith. Mae'n ymddangos mai baner wedi ei llunio ar gyfer



Medal a bathodyn Cymdeithas Caredigion Dinorwig 1835.

priodas aer y Faenol ydyw, sef George William Duff Assheton Smith, a hynny ar achlysur ei briodas ym mis Ebrill 1888 â Laura Alice Stanhope Jones. Yn rhan o'r dathliadau priodas bu cynneu coelcerthi led-led y fro gan ei denantiaid, a chawsant hwythau fel arwydd o ddiolchgarwch, osgoi talu hanner blwyddyn o rent.


Cwmni Morris a Davies, Y Nelson Emporium, Caernarfon oedd yn gyfrifol am y faner, ac y mae'r cwpled:

*'Llwyddiannus, boddus byddont, Hwre byth a Hir y Bont.'*

wedi ei brintio ar y gwaelod. Mae olion o'r faner Jac yr Undeb i'w gweld hefyd. Ond gan bwy, ac i ba achlysur yr addaswyd y faner wreiddiol? Prin y gellir gweld yr enw Assheton Smith ar y faner bellach, a darn bychan o Jac yr Undeb sydd ar ôl.

Crair arall yn gysylltiedig â'r chwarel yw 'sash' a rhubannau yn dal medal neu fathodyn ac arno'r geiriau 'Caredigion Dinorwig: Sefydlwyd 1835.' Mae'n bosibl fod hwn yn perthyn i un o'r cymdeithasau cyfeillgar cynnar iawn – math o yswiriant lleol gogyfer â'r aelodau. Gallai hefyd fod yn perthyn i un o'r amryw gymdeithasau dirwestol a sefydlwyd yn y cyfnod hwn. Datblygodd rhai ohonynt ac ymuno maes o law gyda'r cymdeithasau cenedlaethol megis yr Oddfellows neu'r Rechabiaid. Roedd canghennau o'r ddwy gymdeithas hon i'w cael yn y fro.

(Parhad ar dudalen nesaf)



Rhan o faner dathlu priodas aer y Faenol yn 1888.



## Chwilota

(Parhad o dudalen 5)

### Bardd a Phêl-droediwr

Daeth y penillion hyn trwy law Gwyn Davies, Llanrug, a'r cyfan yn brolio tîm pêl-droed Llanrug yn ystod tymor 1948-49. Rhaid peidio beirniadu gormod ar y farddoniaeth, ac yn sicr, nid y chwaraewyr, gan fod rhai ohonynt yn dal yn eithaf heini heddiw! Yr awdur oedd Hugh Penlon, ond a oedd ar y pryd yn byw yn Nolfon, Cwm y Glo.

Rhyw sosial bach sydd gennym  
I'n tîm ni o Lanrug,  
I ddangos parch i'r hogia  
Sy'n ymladd am y league.

Maent hefyd mewn cwpanna'  
Yr Alves er cof am Bryn Bras;  
A hefyd yn y Penrhyn Cup  
Wel dyna'i chi rai da.

Dic Plas yw y goalkeeper,  
Nid chwarae mae am brês  
Ond helpu Ifan Wyn y back  
A hefyd Wil Pen Rhes.

Cae Corniog ydi'r half-back,  
A hefyd Bert a Lei;  
'Dyw llwynog bobol annwyl,  
Ddim byd i'r rhain o slei.

Wel nawr, beth am y forwards;  
Be ga i ddeud am rhain?  
Does dim a ddê yr hogia hyn;  
Trwy dâd yr ânt a drain.

Hen Drapper, Hanks ac Emlyn,  
A hefyd Glyn a Ioi;  
Ac os bydd un yn missing,  
Wil Robaits ddaw'n ddi-droi.

Mae enwau'r hogia yma  
Yn ddigon i rhyw rai;  
'Nenwedig tim Llanberis  
a Bangor R and I.

Y linesman ydi Tommy  
Ei enw sy' mhob man;  
Ei nabod wnaiff y Cofis  
A gweiddi Twm Jên Ann.

Am Robin Ring ac Elfed  
A'r pwyllgor y mae sôn;  
Ond nid yw chwarter cymaint  
A'r sôn am Huw Pen Lôn.

Lei X a Hwmffri Lewis  
Y Rector a Now Llew,  
A hefyd Williams Glan y Gors;  
Mae rhain yn rhai go lew.

Hugh Jones a Robin Glasgoed  
Sy'n 'rafflers' mawr eu bri  
Yn hwrjio y ticedi  
Fesul un neu ddau neu dri.

Wel dyma un anghofiais:  
Y clocsiwr del a glân,  
Wrth giât y bydd John Ifans  
Pan ddylai fod wrth tân.

A Wilson ydi'r gora  
Caiff ef ei le ei hun,  
Fel gŵr a welodd gynta  
Fod y Reds i gyd fel un.

Un garw ydi Arfon  
Ein hysgrifennydd gwiw;  
Pan glyw o sôn am Abersoch  
Wel gwrido mae ei liw.

Now John yw y trysorydd  
Yn Bryngwyn mae yn byw;  
Pan fydd y gate yn fychan  
Bydd yntau'n tro'n bob lliw.

Pan awn i le fel Bangor  
Syportio'r tîm mewn bys;  
Wil Ed a'r hen Frank Pritchard  
Sy'n llawn o blooming fuss.

Wel bobol, clywch ar Harry,  
Y co sy'n cadw'r Crown  
Yn dweud mai'r Reds sydd yno  
Ac nid Caernarfon Town.

Tom Alun aeth i'r fyddin  
A'i galon fach yn drwm;  
Ffarwelio wnaeth cyn myned  
Â chyfaill bach o'r Cwm.

Twm bach oedd enw'r cyfaill,  
Un garw iawn yw hwn;  
Yr unig un a seiniodd  
I'r Reds o ardal Cwm.

Cled Jones oedd ein goalkeper  
A Cled oedd Centre half;  
A rhwng rhen Feg ac Ellen  
Mae'r ddau yn berffaith saff.

Roedd Bertie Jones o'r Bryngwyn  
Yn un o'r Pwyllgor mawr  
Ond am fod rhaid riseinio  
Fe yrrodd rodd go fawr.


Terfynnu wna'r hynna  
Eich cadw ni wna'r hwy;  
A diolch fawr rhen hogia  
Ni fedrwyd wneud ddim mwy.

Rwy'n siŵr y byddai'r  
chwaraewyr o'r tîm enwog  
hwnnw yn cytuno â'r  
darllenwyr fod Huw Pen Lôn  
yn well chwaraewr pêl-droed  
nac o fardd! Beth am fwy o  
helyntion y tîm hwnnw - neu  
benillion yn clodfori unrhyw  
gamp arall yn y fro o'r  
gorffennol.

Gyda diolch i bawb am  
gysylltu. Cofiwch anfon unrhyw  
ymholiad neu bwt o wybodaeth  
i Dafydd Whiteside Thomas,  
Bron y nant, Llanrug,  
Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).



## Ar Ben Arall y Lein



Dr Robin Parry, Llanberis, gyda eog  
15 pwys o Lyn Engan ar y Seiont.

Er yr holl ddŵr, siomedig hyd yn hyn yw'r tymor 'sgota eog. Roedd cryn ddisgwyll i weld be fyddai canlyniad y cynllun magu/gollwng gleisiad ond, hyd yn hyn, does dim golwg am unrhyw ganlyniad positif. Ond, er hyn i gyd, mae'r tymorau'n hwyrhau a phrynhawn heddiw, sef dydd Gwener, 26 Medi, mae nifer fawr o eogiaid yn neidio yn y Fenaiger Traeth Bach, sef ychydig islaw Pont Yr Aber. Os daw glaw yn y dyddiau nesaf yna mi fydd pawb wedi anghofio am y prinder drwy'r tymor, ond dyna yw 'sgota.

Drwy ystyried fod dim llawer wedi dod i'r enwair, mae rhai uchafbwyntiau wedi bod. Patrwm eleni yw fod yr eogiaid yn fwy, canlyniad efallai i dynnu y rhwydi i ffwrdd oddi ar arfordir gorllewinol Iwerddon. Y 'sgodyn trymaff o'r Seiont yw clamp o eog yn pwyso dros 15 pwys, a'r 'sgotwr medrus oedd Dr Robin Parry, Llanberis, a oedd wedi codi'n gynnar i dderbyn ei wob o Lyn Engan. Un arall oedd un am 13 pwys o Stablau gan Richard Butterfield, Llanddeiniolen, a'r ddau sgodyn braf yma wedi dod i'r bluen.

Mae pethau'n dechrau gwella ym myd y sewin, diolch i'r drefn. Ar ôl blynyddoedd llwm iawn mae newyddion da ar gael, y trymaff i mi glywed amdano yw un am 5 pwys i Stephen Lloyd o'r Groeslon, hefyd gyda sewin rhwng 2 a 3 phwys mae Malcolm Owen a Wyn Parry, Caernarfon, a Kevin Morgan, Waenfawr.

Mae Llyn Padarn yn dal i 'sgota'n dda. Rwyf i'n cael hwyl

arbennig ar y brithyll brown, ond trio dal torgoch yw'r gamp. Digon o frithyll ond dim torgoch, peth rhyfedd, ond mae rhyw bythefnos i fynd - cawn weld be ddaw.

Draw ar y Llyfni mae'r sewin eleni wedi bod yn arbennig, gyda Phyllau Lan Môr, Pontllyfni, wedi bod yn boblogaidd iawn. Diolch i'r criw bach sydd wedi bod wrthi yn gwneud gwaith ardderchog yn glanhau'r glannau. Yr unig beth sy'n tynnu oddi wrth y fan fendigedig yma yw agwedd rhai aelodau o'r cyhoedd sy'n gadael i'w cŵn faeddu'r llwybrau heb godi'r budreddi i fyny. Rhaid sylweddoli mai eiddo y Gymdeithas yw'r tir yma, ac mai ar ochr arall i'r afon y mae'r llwybr cyhoeddus. Mae cryn bwysau gan yr aelodau i wneud rhywbeth am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol yma. Mae'n siŵr y buasai cryn gwyno ac ysgrifennu at wahanol rai pe byddai'r clwb yn cymryd camau i gau'r cyhoedd allan o'r lle poblogaidd yma. Ond, wedi'r cwbl, tydi eistedd ar faw ci yn nhywyllwch y nos ddim yn beth pleserus iawn chwaith, yn enwedig o fod hefyd wedi talu am y fraint o wneud!!

Mae cynnydd blynyddol yn yr ymwelwyr sy'n dod i fwynhau llynnoedd Nantlle, Cwellyn a Dywarchen, a pheth pleserus yw adrodd bod y tocynnau dyddiol i'r llynnoedd yma wedi rhedeg allan ddwy waith eleni. Rhaid rhoi diolch arbennig i Graham, Julie, Zoe a gweddill staff y Cwellyn Arms, Rhyd-ddu, am eu hymroddiad i werthu'r tocynnau, a hurio'r cychod a'r peiriannau ar ein rhan. Ond mae hefyd, medd Graham, yn troi busnes i'w westy a'r cyfleusterau gwyliau y mae o a'i deulu yn eu rhedeg yn y fro. Bechod nad oes neb yn Nyffryn Peris am efelychu be sy'n digwydd yn ardal Rhyd-ddu. Buasai'n hwb mawr i'w busnes. Peidiwch i gyd â ffonio ar unwaith at y tymor nesaf.

Os oes unrhyw un â diddordeb, mae gan y Gymdeithas 8 erw o dir ar lan y Seiont yn Mhont Rug, ar gael i ferlod yn unig ei bori o Fai hyd at ddiwedd Hydref 2009 - digon o le i barcio a digon o ddŵr. Pris eithriadol o resymol. Os oes diddordeb rhowch ganiad i mi ar (01248) 670666.

Dyna ni am y tro,  
HUW PRICE HUGHES

## Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

## H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys  
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Cyfarfu'r aelodau ar gyfer cyfarfod mis Medi yn Festri Bethel ac, yn absenoldeb y Llywydd, Goronwy Jones oherwydd gwaeledd, cymerwyd yr awenau gan yr Is-Lywydd, Selwyn Griffith. Yn dilyn gair o groeso, dymunwyd gwellhad buan i Goronwy Jones a chydymdeimlwyd â'r Parchedig Marcus Wyn Robinson ar farwolaeth ei fam yn ddiweddar. Hysbyswyd yr aelodau am y daith gerdded i'r teulu ar ddiwrnod Nain a Taid, sef 28 Medi, ac am Gyfarfod Blynnyddol Age Concern Gwynedd a Môn ar 5 Hydref.

Y siaradwr gwâdd oedd Meirion Hughes, Caernarfon, un sydd â diddordeb mawr mewn hanes. Cafwyd ganddo sgwrs ddiddorol

iawn yn olrhain hanes protest fawr yng Nghaernarfon ar ddydd Gŵyl Dewi 1932, pan benderfynodd rhai ddringo tŵr y castell a thynnu i lawr faner Jac yr Undeb a chodi yn ei lle faner y Ddraig Goch. Erbyn heddiw, fel y gwyddom, mae'r ddwy faner yn chwifio gyda'i gilydd ar ben y castell.

Yn Festri Cysegr ar 7 Tachwedd y bydd y cyfarfod nesaf, gyda William Vaughan Jones, Pontllyfni yn ŵr gwlad.

MERCHED Y WAWR. Daeth nifer dda o aelodau ynghyd i gyfarfod cyntaf y gangen, dan lywyddiaeth Mair Price. Dymunwyd yn dda i dri o blant yr aelodau oedd wedi priodi yn ystod yr haf, sef Huw Llywelyn, mab Alys Jones; Rhodri, mab Eryl Roberts, a Gwenan, merch Delyth

Williams. Llongyfarchwyd hefyd Anwen Thomas ar ddod yn nain, ac anfonwyd cofion at John, gŵr Elizabeth Evans, a oedd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Atgoffwyd pawb am Gwrs Crefft y Gogledd a gynhelir ym Mhlas Isaf, Corwen, ar 31 Ionawr, a darllenwyd llythyr oddi wrth ysgrifennydd Pwyllgor yr Anabl yn diolch i bawb am gefnogi'r elusen eleni. Braf oedd cael nodi fod £2,920 wedi ei gyflwyno i Dŷ Gobaith yn dilyn dau weithgaredd eleni.

Wyn Thomas o Adran Gerdd, Coleg y Brifysgol Bangor, oedd yn cadw cwmni i'r aelodau a bu iddo sgwrsio yn hamddenol braf am bwysigrwydd y ferch ym myd alawon gwerin. Cafwyd hanes pedair o ferched oedd wedi cyfrannu yn sylweddol i fyd yr alaw werin dros gyfnod o amser, a chafwyd cyfle i gyd-ganu nifer o'r alawon oedd yn cyd-fynd â'i sgwrs. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo am noson arbennig gan Mair Read, ac enillwyd y raffl gan Brenda Jones.

I gloi'r noson mwynhaodd pawb luniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan y Pwyllgor. Cynhelir y cyfarfod y mis nesaf yng Nghaergylichu, Caernarfon, a bydd bws yn cychwyn o'r Cysegr am 7.00 o'r gloch.

EISTEDDFOD. Cafwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn er budd yr Eisteddfod yn ddiweddar yn y Neuadd Goffa. Diolch i bawb am bob cefnogaeth ac am gyfrannu tuag at y stondinau a'r Raffl. Rhannwyd y testunau allan i bawb

oedd wedi troi i mewn ac erbyn hyn maent ar gael yn y Post a Siop Treflyn. Bydd ymarferiadau i'r Partion Canu a Llefaru yn cychwyn cyn bo hir.

Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu yn ariannol i goffrau'r Eisteddfod, bydd y Trysorydd, Gwyneth Jones, yn falch iawn o dderbyn unrhyw rodd.

Cofiwch y dyddiadau: Noson Ddawnsio'r Eisteddfod: 4 Tachwedd, a'r Eisteddfod ei hun ar 8 Tachwedd. Dewch i gefnogi plant ac ieuencid y pentref.

LLONGYFARCHIADAU. Dymuna Brian ac Eluned Davies, Garth, longyfarch Sioned a Jake ar eu priodas ym Mhorthmeirion ar 23 Awst.

LLONGYFARCHIADAU i Stephen a Gwenan Doy ar eu priodas yn ddiweddar. Cynhaliwyd y gwasnaeth gan Marian Griffiths yng Ngwesty Fictoria, Porthaethwy, ar 16 Awst. David Owen oedd y gwas a Rhian a Claire Williams oedd y morynion.

DIOLCH. Dymuna Gwenan a Stephen ddiolch o waelod calon i bawb, yn deulu ac yn ffrindiau, am y dymuniadau da a'r rhoddion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

DYMUNA John Evans, Pen Parc, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl alwadau ffôn, cardiau ac ymweliadau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Diolch arbennig i feddygon a staff Ward Glyder.

## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.  
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED. Yn y cyfarfod ar 15 Hydref, bydd Cyngor Cymuned Waunfawr yn dewis aelod, mae'n debyg mai o Waunfawr, i lenwi'r sedd wag ar gyfer Caeathro! Felly, dyma'r cyfle olaf i etholwr yn Ward Caeathro gynnig ei hunan fel cynghorydd cymuned.

Swydd ddi-dâl, ddi-ddiolch yw hi, ond un sy'n gwasanaethu'r pentref. Mae'r Cyngor yn cyfarfod naw o weithiau'r flwyddyn, saith gwaith yn y Waunfawr a dwy waith yng Nghaeathro. Gellir cyd-deithio gyda chynghorwr arall i'r cyfarfodydd yn y Waunfawr.

Mae'r Cyngor yn gosod treth am y flwyddyn ac yn rhedeg rhai cyfleusterau fel cysgodfeydd bws, meinciau a hysbysfyrddau, yn rheoli llwybrau cyhoeddus ac yn dosrannu grantiau i fudiadau gwirfoddol, yn ogystal â chadw golwg ar les y gymuned.

Beth am roi cynnig arni. Cysylltwch â Clive James, neu'r Clerc.

Yn yr un cyfarfod bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan fudiadau gwirfoddol ar gyfer cymorthdaliadau. Dylid eu hanfon, gyda mantolen, at y Clerc, Tŷ Awelog, Waunfawr.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i godi arwydd newydd, eglur, ar gyfer Lôn Caeathro bach. PEN-BLWYDD O BWYS.

Llongyfarchiadau i Hannah Hughes, Llyngele, ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

LLWYDDIANT. Ychydig yn hwyr efallai, ond llongyfarchiadau i Kelly Griffiths, Tai Glangwna. Hi oedd Myfyrwraig y Flwyddyn yng Ngholeg Glynllifon eleni.

OLYMPAIDD TÂN. Yn yr 'olympaidd amgen' ar gyfer swyddogion tân y byd, Tim Lloyd, Tyddyn Cae, oedd yn fuddugol mewn nifer o rاس beicio mynydd. O leiaf nid oedd yn rhaid codi twmpath o bridd yn Lloegr er mwyn cynnal y gystadleuaeth! TYNFA MISOL. Enillwyd Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ym mis Medi oedd:

£40: (93) Rosie Lloyd, 2 Bythynnod Rhosbach; £25: (101) Dewi Parry, Cefn Rhos; £15: (34) Aled Thomas, Llwyn Onn; £5: (24) Elen Burke, Arofa.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol ar 15 Medi. Yn ei adroddiad am y flwyddyn a fu dywedodd y

Cadeirydd fod tystiolaeth fod y gymuned yn gwerthfawrogi gweithgaredd y Gymdeithas trwy'r flwyddyn. Fodd bynnag, nid oedd digon o bobl ar y pwyllgor. Hefyd roedd incwm y Gymdeithas yn lleihau mewn termau real.

Ailetholwyd Clive James yn Gadeirydd a Tim Lloyd yn Ysgrifennydd. Talwyd diolchiadau i Jason a oedd yn gadael y pentref, felly etholwyd Richard Jones fel Trysorydd newydd. Ailetholwyd Eryl Jones, Huw Ceiriog, Alun Roberts, Wyn Jones, Norman Hughes a Dewi Jones. Etholwyd Gareth Griffiths a Catrin Jones i'r pwyllgor am y tro cyntaf. Bydd y Fantolen yn cael ei chyflwyno i ail ran y cyfarfod ar 20 Hydref 2008. Nid oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod.

CAPEL CAEATHRO. Cynhelir yr oedfaon canlynol yn ystod mis Hydref.

5: 11.00 Ysgol Sul  
2.00 Parch Marcus Robinson  
12:11.00 Ysgol Sul  
19: 10.00 Gwasanaeth  
Diolchgarwch Cymunedol ar gyfer aelodau, plant yr Ysgol Sul, rhieni a chyfeillion yr achos.

26: Dim Oedfa  
CYNGOR CYMUNED. Bydd Cyngor Cymuned Waunfawr yn trafod rhoddion ariannol yn eu cyfarfod ar 15 Hydref. Dylid anfon ceisiadau gyda mantolen ariannol i'r Clerc, Tŷ Awelog, Waunfawr, cyn y cyfarfod.

### Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwyh

## WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,  
Selsig cartref  
Cigoedd parod i'w bwyta  
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU  
DEWCH ATOM NI!



Sioned a Jake ar eu priodas ym Mhorthmeirion.



Stephen a Gwenan Doy ar eu priodas yng Ngwesty Fictoria, Porthaethwy.



## LLANBERIS


Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

**EGLWYS FACH.** Cafodd aelodau Eglwys Fach hwyl a sbri gyda'u picnic haf - a llwyddo i ddewis diwrnod braf! Ar ôl y picnic aethom ni am drip ar gwch Seren yr Wyddfa dros Lyn Padarn. Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall o weithgareddau!

Mae croeso i blant newydd rhwng oedran 0 a 5 (a'u rhieni) ymuno â ni. Rydym yn cwrdd am 10 o'r gloch bob bore Sul yn ystod

tymor yr ysgol yn y Ganolfan Gymunedol, Llanberis - ac mae yn rhad ac am ddim. 'Da ni'n griw cyfeillgar iawn ac yn cael llawer o hwyl gyda'r plant, yn canu, chwarae gemau, gwneud crefftiau a chael storïau a dramâu o'r Beibl. Croeso cynnes i bawb!

Os am fwy o fanylion cysylltwch â'r Rheithordy, Llanberis ar (01286) 873678.



Rhai o aelodau Eglwys Fach ar Seren yr Wyddfa.



Yr aelodau yn ymlacio wrth fwyta'u picnic.

13 Y Maes,  
Caernarfon.  
LL55 2NF  
01286 672333



**GWYLIAU**  
**Seren Arian**



**£69**  
"Stalls"

**DUFFY**  
**Apollo Manceinion**  
**Sadwrn 29 Tachwedd 19.00yn**

Yn cynnwys  
bws moethys a tocyn  
i'r cyngerdd.

[www.silverstarholidays.com](http://www.silverstarholidays.com)

**Y GYMDEITHAS.** Bydd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas yn dechrau ar 14 Hydref yn festri Capel Coch am 7.00 o'r gloch yr hwyr. Y gŵr gwadd fydd y Parchedig Dafydd Job, Bangor. Testun y sgwrs fydd 'Yr Eglwys ar ôl Comiwnyddiaeth'. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**DYMUNA** Delyth a Mattie ddiolch yn ddiifant am bob cefnogaeth a gaed i'r Bingo a gynhaliwyd yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Wener, 29 Awst, er budd Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch yn arbennig i Aneurin Jones am gael defnyddio'r ystafell. Gwnaed elw sylweddol o £267 tuag at yr achos teilwng hwn.

**DIOLCH.** Dymuna Goronwy a Heulwen, Stryd Ceunant, ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am y blodau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar 6 Medi. Hefyd am y galwadau ffôn a'r dymuniadau gorau i Heulwen gan nad yw wedi bod yn dda yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**DYMUNA** Mrs Margaret Griffiths, 7 Llainwen Isaf, ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion a'r arian

a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed ar 2 Gorffennaf. Diolch o galon i bawb. **HOFFAI** Miss Kate Owen, 58 Llanbeblig Flats, Caernarfon, ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am yr holl gardiau, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr.

**DYMUNA** Mona, 17 Dôl Eilian, ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y galwadau ffôn, y cardiau, blodau ac anrhegion tra roedd yn Ysbyty Gwynedd ac wedyn yn Ysbyty Eryri Caernarfon. Diolch yn fawr iawn.

**PLYGU'R ECO.** Nodyn i'ch atgoffa mai Llanberis sy'n gyfrifol am blygu Eco mis Tachwedd ar nos Iau, 30 Hydref yng Ngwesty Dolbadarn o 5.00 o'r gloch ymlaen.

Mae croeso i unrhyw ddarlennwr ymuno â'r cyfeillion rheolaidd am awr neu ddwy.

**BINGO MIS HYDREF.** Cynhelir Bingo Elusennol mis Hydref yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Wener, 31 Hydref am 7.30. Bydd yr elw yn mynd tuag at Gôr Meibion Dyffryn Peris. Croeso cynnes i bawb.



Tim dan 7 Llanberis - enillwyr Tlws yr Eco 2008.



Hywel Williams  
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones  
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

### CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

**Swyddfa Etholaeth**

**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**

neu

e-bost: [williamsgw@parliament.uk](mailto:williamsgw@parliament.uk)



## PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

### YR YSGOL GYMUNED.

**Croeso.** Croesawyd 8 o blant bach newydd i'r dosbarth Meithrin, sef Elin, Mabli, Efa, Morgan, Joel, Alun, Harri a Kristian. Maent i gyd wedi setlo i lawr yn dda iawn yn ein plith. Rydym heyd yn croesawu 5 o blant sydd wedi ymuno â ni mewn gwahanol ddosbarthiadau: Mair, Ceri ac Adam, a Jethro a William, hwythau i gyd yn prysur gwneud ffrindiau newydd.

Rydym hefyd yn croesawu Mrs Sharon Ray fel aelod newydd o'r staff sydd â gofal o ddosbarth 3 a 4. Mae wedi setlo i lawr yn ein plith yn sydyn iawn.

Braf iawn yw croesawu Miss Ceri Williams i'r ysgol bob prynhawn dydd lau er mwyn cael manteisio at ei harbenigedd cerdd! **Pob Lwc.** Dyna'n dymuniad i'r plant sydd wedi dechrau ar eu cyfnod yn yr Ysgolion Uwchradd.

**Llongyfarchiadau** i Nia Eysyll Griffiths am ennill gwobr am y gwaith gorau yn y Gymraeg yn ystod 2007/8. Mae'r wobwr yma'n cael ei chyflwyno i'r ysgol gan Mr Selwyn Griffith yn flynyddol a mawr yw ein diolch iddo am hyn.

**Gwersi Nofio.** Mae 30 o blant dosbarthiadau 3, 4, 5 a 6 wedi dechrau ar gyfres o wersi nofio sy'n cael eu cynnal yn wythnosol ar fore dydd lau. Mae pawb yn mwynhau.

**Hyfforddiant Gymnasteg.** Mae Mr Rhys Hywel yn ymweld â'r ysgol ar brynawn dydd Mawrth fel rhan o gynllun i atgyfnerthu a datblygu sgiliau gymnasteg y plant.

**Paid Cyffwrdd - Dweud.** Daeth Marc draw i'r ysgol unwaith eto i drafod effaith cyffuriau gyda'r plant trwy gyfrwng sioe hud. Roedd pawb wedi mwynhau ei sioe a'i neges.

**Cydymdeimlwn** fel ysgol â Mrs Carol Jones a Mrs Leah Parry a'u teuluoedd, y ddwy wedi colli eu tad yng nghyfraith yn ddiweddar.

**CRONFA PENSIYNWYR.** *Pêl Bonws Loteri.* Enillydd mis Awst oedd Mrs Ann Paterson, rhif 48. Llongyfarchiadau!

**Noson Bingo.** Cynhelir Noson Bingo yn y Neuadd Gymuned nos lau, 23 Hydref, am 6.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

**Cinio Nadolig 2008.** Cynhelir y cinio eleni yng Ngwesty Fictoria Porthaethwy dydd Sadwrn, 20 Rhagfyr. Yn dilyn y cinio bydd cyfle i ymweld â Siop Pringles yn Llanfairpwll. Mae croeso i unrhyw un o bensiynwyr y pentref ymuno â ni yn y cinio yn ddi-dâl, ac os oes unrhyw un yn dymuno dod â ffrind gyda hwy mae croeso iddynt wneud a thalu'r gost am y cinio. Am fwy o wybodaeth neu i roi eich

enwau, cysylltwch â Mrs Janet Ash ar 871265 os gwelwch yn dda.

**YSGOL SUL BOSRA.** Braf oedd croesawu 18 o blant yn ôl i gorlan yr Ysgol Sul. Rydym mor falch o weld y rhai hynaf yn dal i fynychu - maent o gymorth mawr hefo'r rhai o oedran ifanc iawn. Rydym yn falch hefyd fod Mr Evie Jones yn dal i ddal y swydd o Arolygwr, gan fod y plant yn meddwl y byd ohono ac mae'n gefn mawr i'r athrawon.

**APÊL Y CAPEL.** Bydd aelodau'r Ysgol Sul yn cynnal dysgu noddedig ar gyfer yr Apêl. Hyderir y cawn eich cefnogaeth arferol.

**PWYLLGOR NEUADD.** Tynnwyd Clwb Cant Medi a'r enillwyr oedd:

1. Susan Williams, Bryn Rhydd;
2. Renée Morris, Llys y Gwynt;
3. Wena Haf, Fferm Tan y Coed.

Cynhelir *Noson Wasael* ac *Ocsiwn Addewidion* ym mis Rhagfyr a gobeithir cael addewidion hael gan garedigion y fro.

**EISTEDDFOD BENTREF.**

Cynhelir noson i hybu'r Eisteddfod ar nos Fercher, 8 Hydref. Dosberthir y rhaglen a thestunau'r Eisteddfod ar y noson ynghyd â stondinau a phaned a bisgedi. Dowch i gefnogi un o'r Eisteddfodau Pentref sy'n dal i fod yn llwyddiant.

Cynhelir yr Eisteddfod **nos Wener, 14 Tachwedd am 6.00 o'r gloch.** Bydd yr ymarferion yn cychwyn ar 13 Hydref o 6.00 tan 7.00 o'r gloch.

**PRIODAS HAPUS.**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Nia (Porter) a Calvin ar achlysur eu priodas yng Ngwesty Seiont Manor, Llanrug, ar ddydd Sadwrn, 20 Medi.

**EGLWYS SANTES HELEN.**

**Diolchgarwch:** Fore Sul, 4 Hydref, am 11.00 y bore. Cynhelir Sul y Teulu a gweinyddir y Cymun Bendigaid. Cymerir rhan gan aelodau'r Ysgol Sul. Croeso cynnes i bawb.

**Ffair y Cynhaeaf:** Cynhelir y Ffair yn Neuadd yr Eglwys nos Lun, 5 Hydref am 6.30 yr hwyr.

**GWELLHAD.** Dymunir adferiad iechyd buan i Mrs Fitch, Commercial Cottage, wedi cyfnod yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri. Ein cofion hefyd at Mrs E. Williams, 2 Bryn Tirion, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna'r ddwy ohonynt ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt.

Ein dymuniadau gorau i bawb ohonoch sy'n teimlo'n sâl yn y pentref. Mae'r Ha' Bach Mihangel wedi cyrraedd i godi'r galon.



Y plant sydd newydd gychwyn yn Ysgol Penisarwaun mis Medi 2008.

|        |        |               |            |                 |           |          |
|--------|--------|---------------|------------|-----------------|-----------|----------|
| AUDI   | SEAT   | PORSCHÉ       | VOLKSWAGEN | MEWNFORIO       | YR ALMAEN | SWEDEN   |
|        |        |               |            |                 |           |          |
| DIESEL | PETROL | CHWISTRELLIAD | ARBENIGWYR | UNIONI OLWYNION | CAM BELTS | TRYDANOL |

**•Cymhwyster•**  
**BOSCH**  
i roi gwasanaeth i'ch car  
heb effeithio ar  
y warant\*  
Dewis arall dibynadwy  
yn lle'r Prif Ddeliwr  
\* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr  
Lle da y gellwch ei fforddio

Stâd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD  
**(01286) 673559** [www.a-v-w.co.uk](http://www.a-v-w.co.uk)

|                    |               |          |          |
|--------------------|---------------|----------|----------|
| SKODA              | BMW           | PEUGEOT  | FIAT     |
| CLUTCHES TYRBO     | BRÉCS         | ABS      | AIR CON  |
| WORKSHOP           | VEHICLE       | WORKSHOP | WORKSHOP |
| Gwasanaeth i'r Car | BOSCH Service | OFT      | SAAB     |

Dylunio / Design  
Cyfryngau / Media  
Arddangosfeydd / Exhibitions  
Safweoedd / Websites




**cread**

gwasanaeth dylunio / cyfryngau  
design / media service

t - 01248 713437  
m - 07867 976183  
e - [post@creadcyf.co.uk](mailto:post@creadcyf.co.uk)  
w - [www.creadcyf.co.uk](http://www.creadcyf.co.uk)

1161 5an



### Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys  
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch

â **Gomer Roberts**

Ffôn : **01286 870462**

Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er  
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!



## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

### YSGOL CWM Y GLO

Rydym wedi croesawu naw o blant bach i'r Meithrin ar ddechrau tymor newydd a braf yw cael dweud fod pawb wedi ymgartrefu yn dda iawn. Croesawn athrawes newydd i ddosbarth Llydaw, sef Miss Eleri Jones o Borthaethwy, ynghyd â chymhorthydd newydd i ddosbarth Peris, Miss Christine Jones o Lanrug.

Roedd Medi 19 yn ddiwrnod trist yn Ysgol Cwm y Glo pan fu i Anti Margaret roi'r gorau i fod yn Oruchwyliwr amser cinio ar ôl wyth mlynedd ar hugain. Mae Mrs Margaret Williams, Bryn, wedi gweithio gyda sawl prifathro yn ystod ei hamser yma ac, erbyn hyn, mae'n gofalu am blant rhai o'r disgyblion sydd eisioes wedi bod drwy'r ysgol! Mae ei chyfraniad i'r ysgol wedi bod yn un gwerthfawr iawn, fel rhiant, Anti Cinio ac fel Llywodraethwr, ac rydym yn diolch yn fawr iawn iddi am ei blynnyddoedd o wasanaeth.

Bydd Campau'r Ddraig a'r Urdd yn ailgychwyn y mis yma bob nos Fercher yn syth ar ôl yr ysgol. Mae croeso i unrhyw un o'r Adran lau aros i'r gweithgareddau.

Mae'n amser ymaelodi yn y Clwb Cant hefyd. Croesawn unrhyw un o'r pentref fyddai'n hoffi cefnogi'r ysgol drwy fod yn rhan o'r Clwb Cant.

**UNDEB Y MAMAU.** Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parch Robert Townsend yn Eglwys Sant Gabriel nos Lun, 1 Medi, i ddechrau ein cyfarfodydd am y tymor nesaf. Cafwyd cyfarfod a lluniaeth yn yr ysgol Gymuned. Trafodwyd materion perthnasol a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Enid Taylor a Miss Meira Williams. Diolchwyd i John a Margaret Latham am drefnu'r Te Mefus ym mis Gorffennaf. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Margaret a Kathleen, hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan y Rheithor. Diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs Gwen Owen. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

Trefnwyd Bore Coffi yng nghanolfan y ddeoniaeth ym Mangor fore Mawrth, 2 Medi. Cynrychiolwyd Cangen Llanrug a Chwm-y-Glo gan Joyce, Margaret, Gwyneth a Hilda.

**PRIODAS.** Llongyfarchiadau i Carys, Glan-y-Don a Dylan, Stryd yr Wyddfa, Llanberis, ar achlysur eu priodas yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Mae'r pâr ifanc wedi ymgartrefu yn 3a Stryd

Newton, Llanberis. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

**LLONGYFARCHIADAU** i Cheryl Williams, Dôl Afon, ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed. Dymuna Cheryl ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig.

**DIOLCH.** Dymuna Carys a Dylan ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

**LLONGYFARCHIADAU** i Margaret a Cwil, Bryn, ar fod yn Nain a Thaid am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Mali Fflur, i Terry ac Anwen a chwaer fach i Efa yn Rachub, Bethesda.

**DIOLCHGARWCH.** Cynhelir Gwasanaethau Diolchgarwch Eglwys Sant Gabriel ddydd Sul, 19 Hydref. Gwasanaeth a'r Cymun Bendigaid am 9.30 ac yna Pregeth y Cynhaeaf am 4.30 y prynhawn.

Nos Lun, bydd Noson o Bingo yn yr Ysgol Gymuned am 7.00 o'r gloch a'r elw at yr Eglwys. Hefyd, fe dynnir y Raffl Fawr. Dowch yn llu, bydd croes cynnes i bawb.

*Eleri Jones a Christine Jones  
gyda'r disgyblion newydd  
sydd yn y Meithrin.*



*Margaret Williams yn ffarfelio â'r disgyblion ar ôl bod yn Oruchwyliwr Cinio am wyth mlynedd ar hugain.*



### Archifdy Caernarfon

Er mwyn ymgymryd â chyfrif stoc, bydd Archifdy Caernarfon ar gau am wythnos, o 13 Hydref hyd 17 Hydref, 2008.

### BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

**D. P. OWENS** RHIWLAS



**ORIEL  
CWM  
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio  
Lluniau o bob math  
ar gael ar y safle  
Prisiau Rhesymol  
Arddangosfa o luniau  
gwreiddiol gan  
Artistiaid Lleol  
Richard S. Humphreys

### CDH

Ymgynghorwyr Ariannol  
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon  
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd  
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,  
Parc Menai, Bangor  
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch  
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr  
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol



## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

**PROFEDIGAETHAU.** Ar 12 Medi bu farw Maggie Closs Williams, gynt o 4 Tai Orwig, yn 94 mlwydd oed. Mae ei hymadawiad yn gadael bwlch yn un o hen deuluoedd y pentref. Bu'n trigo yma am y rhan helaethaf o'i hoes cyn symud i Fynydd Llandygai at ei mab a'r teulu ac yna i Fangor yn ei blyneddolaf. Bu'r angladd yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun. Cydymdeimlwn yn ddwys â Dewi a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Ar 18 Medi, fe ddaeth y newydd am farwolaeth Glyn Hughes Owen, Tros yr Afon, yn 87 mlwydd oed. Bu'r angladd yng Nghapel y Rhos, Llanrug, ar 24 Medi a thalwyd teyrnged iddo fel gŵr cymwynasgar, teyrngar i'w deulu ac un a garai'r bywyd gwledig gan y Parch Marcus Robinson. Cydymdeimlwn â Gwenllian, Dwynwen, Bleddyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.** CYMDEITHAS Y CAPEL. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gynddithas yn y Caban nos lau, 4 Medi. Cadeirydd y noson oedd Verna Jones, Meillionen. Yn dilyn gair o groeso cafwyd ennyd o ddistawrwydd o barch i goffadwriaeth y ddiweddar Dilys Wyn Morris. Seiliwyd y myfyrdod ar ddarlenniad o'r Ysgrifur 'Bwa'r Cyfamod' fel arweiniad i destun y noson.

Ymhellach croesawyd y siaradwr gwadd o blith yr aelodau, sef Dafydd G. Ellis, Gwledfa. Ei destun oedd 'Pontydd' a thywysodd yr aelodau i werthfawrogi camp bensaernïol y cyfryw gydag enghreifftiau tramor ond yn fwyaf arbennig yma yng Nghymru - campwaith Pont Gethin yn ei ardal enedigol a Phont Penllyn, wrth gwrs. Diolchwyd yn gynnes iawn am noson ddifur gan y Cadeirydd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, 2

Hydref. Y siaradwr gwadd fydd Dilys Phillips, Rowen, ar y testun 'Tirlun a Bywyd Gwyllt', gyda Gwyn Hefin Jones yn cadeirio'r noson.

**COFION A CHYDYMDEIMLAD.** Yn ystod oedfaon Medi anfonwyd cofion at Joan Williams sydd ar hyn o bryd yn wael yn Ysbyty Gwynedd, a Geraint Morris sydd wedi bod yn yr un ysbyty dan archwiliad. Colodd yr Eglwys ddau aelod yn ystod y mis a chydymdeimlwyd â theuluoedd y ddiweddar Maggie Closs Williams (gynt o 4 Tai Oriwg) a'r diweddar Glyn Hughes Owen, Tros yr Afon, yn yr oedfa nos Sul, 21 Medi.

**OEDFAON HYDREF.**

5: am 5.30. Parch Harri Owain Jones, Llanfairpwll; Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

12: am 2.00. Parch Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus.

19: am 2.00. OEDFA DDIOLCHGARWCH dan arweiniad y Parch John Pritchard, Llanberis.

26: am 5.30. Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel.

**SEFYDLIAD Y MERCHED.** Daeth nifer dda o aelodau ynghyd i'r cyfarfod ar ôl gwyliau'r haf. Croesawyd pawb yn ôl gan y llywydd a chroesawyd Jenny yn ôl i'n plith ar ôl llawdriniaeth a dymunwyd llwyr wellhad iddi.

Cydymdeimlwn â Gwen a'r teulu o golli ei thad, Glyn Owen, Tros yr Afon, gweddwyd y ddiweddar Betty oedd yn aelod ac ysgrifennydd gweithgar o'r Sefydliad am flynyddoedd. Colled i'r teulu i gyd.

Gwenllian Roberts o Gyngor Gwynedd oedd yn cadw cwmni i'r aelodau a bu'n trafod Ailgylchu. Cafwyd sgwrs hwyliog a difyr ganddi a gwnaeth i ni sylweddoli pwysigrwydd ailgylchu heddiw.

Paratowyd y te gan Eirlys a Carys.

## O SIAMBAR SELWYN

Oedd, roedd hi'n anodd gwrthod. Roeddwn i'n cau pennod arall yn fy mywyd rhywsut wrth wneud hynny. Pennod sy'n ymestyn dros hanner can mlynedd ac ymhell dros bedwar cant o eisteddfodau. Rydw i wedi teimlo ers tro bellach bod beirniadu adrodd mewn eisteddfodau yn dipyn o straen corfforol a meddyliol arna i. Yn naturiol dydi fy meddwl i ddim yn gweithio mor gyflym ag yr oedd o, ac mae'r blinder i'w deimlo ar ôl treulio tua deuddeg i bymtheg awr yn gwrando, ysgrifennu a thraddodi beirniadaethau, yn ogystal â theithio milltiroedd i gyrraedd adre yn oriau mân bore Sul.

Dwi'n hynod o falch i mi gadw cofnod o bob eisteddfod y bûm i ynddi; pwy oedd fy nghyd-feirniad; i bwy y rhoddais y Gadair os oedd hi'n eisteddfod Gadeiriol, a hefyd faint o filltiroedd oedd yna o fy nghartref i eisteddfodau pell y canolbarth a'r de. Mae'n ddifur edrych drwy'r llyfryn.

Mae amryw o'r cyfeillion y cefais y fraint o gyd-feirniadu hefo nhw wedi'n gadael ni. Rhai fel Peleg Williams, Gilmor Griffiths, Davy Jones a T. Gwynn Jones, un y cefais ei gwmni fwy na'r un beirniad arall, reit siŵr. Cofiaf gyrraedd adre o sawl eisteddfod hefo Gwynn tua saith o'r gloch ar fore Sul, a gwn y byddai Gwynn wrth yr organ yn ei gapel yn Llanfairfechan yn brydlon am ddeg, a minnau yn y sedd gefn yng Nghapel Bethel.

Yn ystod y cyfnod, dwi wedi cael y fraint o ddyfarnu Cadair neu Goron i 154 o feirdd/llenorion. Tyfodd rhai ohonyn nhw i fod yn Brifeirdd ac yn Brif Lenorion. Ac un hyd yn oed yn Archdderwydd.

Doedd gen i fawr o waith teithio i'r eisteddfod gynta i mi feirniadu ynddi erioed, sef yn hen Ysgol Tan-y-Coed, Penisa'rwaun. Y diweddar Humphrey Williams a'm perswadiodd, neu, a bod yn onest, a orchmynodd i mi fentro. Creadur nerfus ac ofnus iawn a reidiodd ei feic o Fethel i Benisa'rwaun ar y noson loergan honno dros hanner canrif yn ôl. Roedd yna lais bach yn mynnu deud wrtha i rhwng pob padliad am droi'n ôl yn ystod y daith o ddwy filltir. Dwi wedi diolch sawl tro i mi beidio â gwrando ar y llais bach hwnnw ac i mi fentro, yn gwbwl ddibrofiad, i Ysgol Tan-y-Coed.

Dwi'n amcangyfrif i mi wrando ar dros ddeugain mil o gystadleuwyr yn ystod yr hanner canrif o eisteddfota, a bydd rhyw chwys oer yn dod drosta i weithia o feddwl faint o'r miloedd a gafodd gam gen i. Ond rwy'n prysuro i ddeud, os cafodd

rhywun gam nid yn fwriadol yr oedd hynny ond oherwydd fy anwybodaeth neu fy niffyg profiad. Ydw, hyd yn oed heddiw, rydw i'n dal i ddysgu rhywbeth newydd ymhob eisteddfod. Rwy'n berffaith gadarn fy marn hefyd mai yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd y dylid cael y beirniad mwya profiadol, ac nid rhywun sy'n bwrw'i brentisiaeth.

Wrth gwrs, mae yna eisteddfodau cofiadwy a dwi wedi sôn am rai ohonyn nhw yn fy atgofion. Cefais y fraint o feirniadu yn ein gwyliau cenedlaethol fwy nag unwaith, a chydweithio gyda rhai yr oedd gen i barch mawr tuag atyn nhw, ond bellach rydw i'n ddigon gonest i gyfaddef bod treulio tua deuddeg awr neu fwy mewn eisteddfod yn ormod o straen ar 'hen ŵr' fel fi!

O'r holl eisteddfodau dim ond dwy waith y methais â chadw fy addewid i fynd iddyn nhw. Un oedd ym Morfa Nefyn yn 1971 pan oedd Myra yn wael yn Ysbyty Broad Green, Lerpwl. Fe gytunodd y diweddar John Morris, Aberdaron, lenwi'r bwlch. Y tro arall oedd yn y Bala, mis Mawrth 1995, pan fethais â mynd yno oherwydd eira.

Dim ond dwy waith hefyd y cefais y profiad blin o fethu â chael teilyngdod yng nghystadleuaeth y Gadair, ond rwy'n cytuno i mi fod yn feirniad eitha caredig ar fwy nac un achlysur ynglŷn â chael teilyngdod er mwyn cynnal seremoni.

Ond yn ôl i ddechrau'r llith yma. Oedd, roedd hi'n anodd gwrthod. Yr hen gyfaill Gwyn Parry Williams, Ysgrifennydd Eisteddfod Chwillog, oedd yn estyn gwahoddiad imi fynd yno i feirniadu yr adrodd a'r llên ym mis Ionawr 2009. Eisteddfod y bûm i ynddi sawl tro. Cytunais i feirniadu'r llên yn unig, ac rydw i wedi penderfynu dal ati i feirniadu llên a barddoniaeth mewn ambell eisteddfod, os byw ac iach, yn y dyfodol hefyd.

Fy nod oedd cyrraedd 450 o eisteddfodau cyn 'ymddeol' ac, os byw ac iach, efallai y gallaf gyrraedd y nod drwy ddal i feirniadu'r cystadlaethau llên. Eisteddfod Gwaun Gynfi ddiwedd y mis fydd y 436 eisteddfod i mi feirniadu ynddi, a chan i mi ddechrau'r daith eisteddfodol ym mhlwyf Llanddeiniolen, ble well na Gwaun Gynfi i ddweud ffarfél, yntê? Gan hyderu y caf i gyrraedd y 450.

Oes, mae gen i atgofion hapus iawn o grwydro Cymru o Steddod i Steddod am ddros hanner canrif. A diolchaf am i mi gael nerth ac iechyd i gyflawni'r gwaith.

## Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

[www.caban-cyf.org](http://www.caban-cyf.org) [caban@caban-cyf.org](mailto:caban@caban-cyf.org)  
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr

Llanberis

Ffôn: 870088

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

SWIGOD A SEBON





## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

### YSGOL WAUNFAWR

Bu'n ddiwedd tymor llawn prysurdeb fel arfer – dyma rai digwyddiadau.

*Ymgrych Cadw Cymru'n Daclus.*

Bu pob dosbarth yn tacluso man arbennig yn y pentref yn ystod yr wythnos. Daeth yr heddlu i'n cynorthwyo, a bu hyn yn fuddiol iawn ac yn diogelu pawb. Cawsom fenthyg y siacedi llachar a digon o ffyn codi sbwriel o Caergylchu yng Nghaernarfon. Bu'r dosbarth meithrin yn tacluso o amgylch yr ysgol. Blwyddyn Derbyn ac Un o amgylch y Ganolfan. Blwyddyn 3 a 4 ger y lôn bach sy'n arwain tuag at Stad Tŷ Hen. Blwyddyn 4 a 5 ger y siop chips a blwyddyn 6 o gwmpas yr Antur.

*Clwb Pel Droed Kick it.* Cafodd plant yr Adran lau gyfle i ddatblygu eu sgiliau pêl am awr yr wythnos dros gyfnod o 6 wythnos. Mwynhodd pawb y gwersi'n arw. Gobeithir gallu trefnu'r clwb eto y flwyddyn nesaf.

*Yr Ardd.* Cafodd blwyddyn 6 ddiwrnod wrth eu bodd ddydd Llun, 23 Mehefin yng nghwmni Anna. Buont wrthi fel lladd nadroedd yn chwilio am greaduriaid bach, yn gosod y labeli cywir ar y blodau, planhigion, llysiau a choed. Plannwyd mwy o lysiau yn yr ardd letys nionod a chenin. Gosodwyd hefyd bwl dŵr bach yn yr ardd. Derbyniodd yr ysgol Wobr Aur Cystadleuaeth Gerddi Gwylt Eryri ddechrau Gorffennaf. Daeth yr ysgol yn gyntaf allan o bymtheg o ysgolion ac fe'u anrhegwyd mewn seremoni arbennig ym Mhorthmeirion a derbyniodd yr ysgol wobwr o £100. Derbyniodd yr ysgol hefyd Wobr Aur Cynllun Gwyrdd Ysgolion Gwynedd a Môn am yr ail flwyddyn yn olynol. Diolch eto i Anna am ei holl waith gyda'r plant.

*Mabolgampau'r Ysgol.* Cawsom ddiwrnod digon braf i gynnal Mabolgampau'r ysgol ar 30 Mehefin. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn gyda thîm Eilio yn fuddugol. Dyma lun o'r capteiniaid, Mared Ynyr a Gruffydd Rowlands, yn gafael yn y darian. Enillwyr y marciau uchaf yn eu blwyddyn:

Dosbarth Meithrin: Math, Tomos, Celt, Efa a Poppy;  
Dosbarth Derbyn: Tanwen a Meilir  
Blwyddyn 1: Kreena a Tomos  
Blwyddyn 2: Megan a Rhys  
Blwyddyn 3: Mair a Huw  
Blwyddyn 4: Tara a Tim  
Blwyddyn 5: Sophie Tesni a Cian  
Blwyddyn 6: Taylor a Gruffydd  
Pencampwyr yr ysgol eleni oedd Taylor Jayne Roberts, Bl 6 a Cian Mc Dermott, Bl 5.

*Teithiau Cerdded Noddedig.*

Cynhaliwyd dwy daith gerdded noddedig. Bu plant Adran y Babanod ar daith gerdded o amgylch y pentref a chael picnic bach ger yr afon. Aeth plant yr Adran lau ar daith o Waunfawr i fyni at y Lôn Wen yn Rhosgadfan. Casglwyd y swm anrhydeddus o £1,450.00 gyda'r Teithiau. Gwych iawn! Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd.

*Tripiau ddiwedd tymor.*

Treuliodd y dosbarth meithrin fore ym Mharc Sipsi Caeathro, tra bu plant Adran y Babanod ar ymweliad â Henblas, Sir Fôn, ac er gwaethaf y tywydd roedd pawb wedi mwynhau y diwrnod. Ymwelodd blwyddyn 3 â Gelli Gyffwrdd a bu

blwyddyn 4 a 5 yn gwneud gweithgareddau awyr agored yn Rhyd-ddu.

*Y Cyfarfod Gwobrwyo.*

Cynhaliwyd cyfarfod gwobrwyo'r ysgol ddydd lau Gorffennaf y 17eg. Yr enillwyr eleni oedd:

Tarian Gerdd: Mared Ynyr a Shannen Owen, Bl 6;  
Tarian Gywaith: Tesni Wood, Bl 5;  
Cywaith Blwyddyn 6: Dion Rowlands;  
Cywaith Blwyddyn 5: Tesni Wood;  
Cywaith Blwyddyn 4: Gwion Lowe;  
Cywaith Blwyddyn 3: Tomos Morgan;  
Tarian Gelf: Peter Williams, Bl 6;  
Tarian Ymdrech: Mared Rhys, Bl 6.

Dymunwyd yn dda i blant blwyddyn 6 sy'n ein gadael am Ysgolion Brynrefail ac Eifionydd. Anrhegwyd y plant yn y Cyfarfod Ffarwelio a derbyniodd pawb Eiriadur yn rhodd gan yr ysgol. Hoffem hefyd ddiolch i Eglwys Betws Garmon am roi llyfr yr un i ddisgyblion blwyddyn 6.

Dymunwyd yn dda hefyd i Mrs Ann Evans, anrhegwyd hi ar ran yr ysgol a diolchwyd iddi am ei gwaith gyda blwyddyn 6 a'r grwpiau anghenion arbennig dros y tair blynedd ddiwethaf.

Rydym yn dymuno'n dda i'n cynddisgyblion sydd wedi dechrau yn ysgolion uwchradd Brynrefail ac Eifionydd ac estynnwn groeso arbennig i blant y dosbarth Meithrin. Maent wedi ymgartrefu'n hapus yn ein plith ac yn blant da.

Estynnwn groeso cynnes hefyd i dair cymhorthydd newydd Anghenion Addysg Arbennig, sef Miss Zoe Williams, Mrs Diane Williams a Miss Hannah Thomas.

*Y LLYFRGELL.* Mae y Llyfrgell Deithiol yn galw yn sgwâr Stad Tref Eilian bob yn ail dydd lau. Y dyddiad nesaf fydd 16 Hydref.

*LLONGYFARCHIADAU* i Megan Enlli Thomas, Angorfa, ar lwyddo gyda anrhydedd yn yr arholiad chwarae Telyn, Gradd 1. Da iawn chdi, Megan, dal ati, wnei di ddim difaru.

*DATHLU PENBLWYDD.*

Llongyfarchiadau i Mrs Winnie Evans, Lleifior, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 89 mlwydd oed ddechrau mis Medi.

*DYMUNWN* wellhad buan i Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen, wedi iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

*ANFONWN* ein cydymdeimlad dwysaf at Kathy a Gerallt Williams, Stad Tŷ Hen yn eu profedgiaeth o golli mam Kathy, nain annwyl i Owain, yn ddiweddar.

*EISTEDDFOD BENTREF WAUNFAWR 2008.* Nodyn i'ch atgoffa y bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, 8 Tachwedd, yng Nghanolfan y Pentref. Cynhelir Eisteddfod ar gyfer y plant yn y prynhawn ac i'r oedolion gyda'r hwyr. Croeso cynnes i bawb sy'n byw yn y pentref. Am fwy o fanylion cysylltwch ag Olwen ar (01286) 650371.

*DYMUNA* Llinos Dinwiddy ddiolch i'r teulu a ffrindiau am eu gofal a'u cymorth ar ôl marwolaeth ei phriod, Gerry. Diolch i bawb a fu'n gymeradwy, gan gynnwys Tim Clark dyneiddwr, a Gwilym Jones a'i Fab am wasanaeth profesiynol. Casglwyd £757.00 tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon.




Clwb Pêl-droed Kick It.



Gardd Lysiau Ysgol Waunfawr 2008.



Tesni Wood, Bl 5 – enillydd y Darian Gywaith.



Gwyn L. Williams yn cyflwyno'r tariannau i Shannen Owen a Mared Ynyr. Hefyd yn y llun mae Ann Marston.



Pencampwyr y Maolgampau eleni: Taylor Jane Roberts, Bl6, a Cian McDermott, Bl 5.



## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

PLAID CYMRU. Cynhelir Noson Goffi nos Fercher, Hydref 15 yn Sefydliad Coffa Llanrug.

Bydd stondinau a rafflau ac edrychwn ymlaen at noson ddifyr o sgwrsio a chymdeithasu. I gyfrannu nwyddau i'w gwerthu, arian at yr achos, neu i gynnig help gyda'r coffi neu'r stondinau, ffoniwch Phyllis (870237), Vera, (674878), Meirwen (675359) neu Llinos (674478). Croeso cynnes i bawb i'r Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch.

Bydd Llywydd y Blaid, Dafydd Iwan, yn dod i'r gangen nos Fercher, Tachwedd 19; bydd manylion am y cyfarfod yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

### YSGOL GYNRADD LLANRUG

CROESO 'NÔL i bawb wedi gwyliau'r haf. Dechreuodd dau ddeg naw o blant yn y dosbarth Meithrin ac maent yn setlo'n dda iawn yn ein plith.

Rydym yn croesawu aelodau newydd o staff hefyd. Croeso i Sara Llwyd Davies, athrawes anghenion arbennig. Rydym hefyd yn croesawu tair cymhorthydd Cyfnod Sylfaen, sef Gwennan Williams; Nia Edwards a Kelly Jones. Gobeitho y byddwch yn hapus iawn yn yr ysgol.

Dymunwn ymddeoliad hapus i Anti Eirlys, sef Mrs Eirlys Williams, wedi tri ar hugain o flynyddoedd o wasanaeth. Diolch i chi a phob hwyl i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Anti Margaret ar enedigaeth ei hwyres fach - Mali Fflur.

MARWOLAETH. Ar 2 Gorffennaf, yn 102 mlwydd oed, bu farw Mrs Elizabeth Mary Williams yng Nghartref Preswyl Foelas, Llanrug, lle y cafodd wasanaeth a gofal canmoladwy iawn am dros ddwy flynedd ar bymtheg.

Cyn mynd i'r Cartref roedd yn byw yn Deiniol Road, Deiniolen, efo'i gŵr, Richie, a thri o fechgyn. Bu farw Richie 31 o flynyddoedd yn ôl. Dros oes hir bu'n aelod selog yn Eglwys Crist Llandinorwig, ac ar ddydd yr Angladd cynhaliwyd gwasanaeth teimladwy yn yr Eglwys ac yn y fynwent. Dymuna'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd.

PROFEDIGAETHAU. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Beryl, Phil, Meleri a Fflur, Llecyn, yn eu colled fawr yn dilyn marwolaeth Mam a Nain annwyl, sef Mrs Mair Jones, Hafan Elan (Ogwen, gynt). Mi fydd colled fawr iddynt ac i'w chwaer a dau frawd a'i ffrindiau oll. Cafodd ofal arbennig iawn ganddynt.

Ar 28 Awst, bu farw Mrs Jean Walsh ar ôl amser hir o waeledd. Wedi symud o 2 Gorffwysfa, aeth i fyw i Hafan Elan ac, wedi methu gofalu amdani'i hun, symud i'r Foelas yn Llanrug. Bu'n aelod gwerthfawr o dîm yr Eco fel dosbarthwr am flynyddoedd, ac roedd colled fawr wedi iddi orffen. Gwerthfawrogwyd ei chyfraniad yn fawr iawn.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teulu, Patsy a John a'u teuluoedd, ei brodyr a chwiorydd a'i ffrindiau oll. Bydd colled fawr ar ei hôl.

DIOLCHIAU. Dymuna Wavell Roberts, Snowdon View, Glan Beuno, Bontnewydd, ddiolch am yr

holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Manceinion. Mae wedi mendio'n dda erbyn hyn. LLONGYFARCHION. Pob

dymuniad da a llongyfarchiadau i Dr Liza Ann Jones, 4 Arfon Terrace, ar dderbyn ei D.Phil mewn Mathemateg yn Rhydychen.

Mae yn Ffrainc ar hyn o bryd yn cario ymlaen gyda'i hymchwyl ym Mhrifysgol Orsay, Paris. Bydd yn symud ymlaen i Stockholm, Sweden, yn Ionawr 2009 i gario ymlaen â'i gwaith yno. Ardderchog iawn, Liza.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb 100 mis Medi oedd: £20: E. Roberts, 3 Bryn Moelyn; £7: Wendy Owen, 23 Hafan Elan; £5: Mrs B. Roberts, Glanfa.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau gan y Llywydd, Phyllis Elis. Cytunodd Eryl i fod â gofal o'r camera newydd a Myfanwy yn cytuno i fod yn Is-ysgrifennydd am eleni. Llongyfarchwyd Ann Lloyd ar ddod yn Nain falch i lanto; Menna yn Nain brofiadol i Seth, mab Ffion; Nan yn Nain falch i Betsan Haf, merch fach Siwan ac Enid yn Nain falch i Megan - addewid am Gymry bach da.

Llongyfarchwyd y tri beiciwr: Bedwyr, Dylan a Keith, ar eu camp fawr yn beicio o Gaerdydd i Gaernarfon er budd Cancr ac Ymchwyl yr Arennau.

Diolchwyd i Pat am ofalu am y rhaglenni a llongyfarchwyd Phyllis ar ddod yn ail yn Sioe Llanelwedd gyda'i gemwaith cywrair.

Gwesteion y noson oedd Buddug a'i chi tywys du, Ivy, ac Elfyn a'i gi tywys melyn, Bruce. Un o'r Groeslon yn wreiddiol yw Buddug ond yn byw yng Nghaernarfon ers blynyddoedd bellach. Un o'r Groeslon hefyd yw Elfed ac mae o'n dal i fyw yno. Buddug yw Cadeirydd Cymdeithas Cŵn Gwynedd ac yn ymroi yn llwyr i drefnu gweithgareddau ar gyfer y deillion. Llwyddodd Elfyn i orffen y Marathon yn Llundain a chodi £6,000 i gael ci newydd.

I Buddug, ffon unigrywdd oedd ffon wen, ond pan gafodd gi tywys mae'r ci yn denu pobl i stopio a chael sgwrs. Wedi cael ci daeth newid mawr i'w bywyd - cyfleoedd i wneud pethau cadarnhaol a chyffrous fel abseilio o Dŵr Marcwis hyd yn oed. Bu'n hwylio mewn tywydd erchyll a chael y wefr unwaith eto o gael mynd i Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol. Mae Ivy, y ci tywys du, wrth ei bodd yn mynd ar Daith Gerdded i Lyn Idwal a Phen yr Wyddfa hyd yn oed.

Collodd Elfyn ei olwg rhyw flwyddyn a hanner yn ôl ond, wedi cael cymorth ac anogaeth gan Buddug ac Arthur Rowlands, buan yr ymwroddodd ac fe ddringodd yntau'r Wyddfa gyda'i ffon wen. Ond rhedeg Marathon Llundain yng nghwmni Kate, a hynny mewn chwe awr a hanner, a ddaeth â'r wobwr a'r anrheg gorau iddo, sef cael Bruce, y ci tywys melyn

addfwyn yn Nhachwedd 2007. Cododd £6,000 tuag at Gymdeithas y Cŵn Tywys.

Deallir y cynhelir y gwasanaeth cŵn tywys yn llwyr gan roddion gwirfoddol a daw dau draean o'r incwm ar ffurf cymunroddion. Mae miloedd o gefnogwyr yn codi arian drwy gyfrwng amrywiaeth eang o weithgareddau. Cynhelir Loteri Cŵn Tywys, apeladau rheolaidd am arian drwy'r post, rafflau, digwyddiadau cymdeithasol, cefnogaeth gorfforaethol, ailgylchu ffonau symudol a stampiau a nifer o weithgareddau eraill.

Mae'r Gymdeithas angen dros £50 miliwn y flwyddyn i gynnal eu gwaith gwerthfawr. Mae'n costio tua £10 y dydd i fridio, hyfforddi a gofalu am bob ci tywys. Os am helpu i ddarparu'r rhyddid a'r annibyniaeth y mae ci tywys yn ei roi i bobl ddall a rhannol ddall, cewch wybod mwy ar [www.guidedogs.org.uk](http://www.guidedogs.org.uk) neu ffonio 0870 6002323.

Diolchodd Phyllis i Buddug ac Elfed am noson hynod o ddifyr, noson llawn edmygedd o'u gwroldeb a'u dyfalbarhad. Diolchodd i Ivy a Bruce, y cŵn deallus, am eistedd mor ufudd wrth draed eu perchnogion diolchgar.

Carys a Heulwen enillodd y raffl. Llongyfarchiadau. Diolch i griw Penisarwaun am ofalu am y baned.

Mair Penri fydd gwestai 14 Hydref, ac mae ei henw hi bob amser yn argoeli noson llawn hwyl a doniolwch. 'Mair Penri a'i Phobl' fydd dan sylw. Croeso i unrhyw un ymuno â ni yn y Sefydliad Coffa am 7.30.



Tîm dan 7 Llewod Llanrug - ail yn Nhlws yr Eco 2008.

**CEIR CYMRU**  
BETHEL

(01248) 670451

[www.ceircymru.com](http://www.ceircymru.com)

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 18 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

**'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**

**Blodau Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON  
YW BLODAU



## DEINIOLLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

MARWOLAETH. Ar 2 Gorffennaf, yn 102 mlwydd oed, bu farw Mrs Elizabeth Mary Williams yng Nghartref Preswyl Foelas, Llanrug, lle y cafodd wasanaeth a gofal canmoladwy iawn am dros ddwy flynedd ar bymtheg.

Cyn mynd i'r Cartref roedd yn byw yn Deiniol Road, Deiniolen, efo'i gŵr, Richie a thri o fechgyn. Bu farw Richie 31 o flynyddoedd yn ôl. Dros oes hir bu'n aelod selog yn Eglwys Crist Llandinorwig, ac ar ddydd yr Angladd cynhaliwyd gwasanaeth teimladwy yn yr Eglwys ac yn y fynwent. Dymuna'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd.

DYMUNA Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Diolch arbennig hefyd i nyrsus a'r sister Ward Padarn, Ysbyty Eryri, Caernarfon, ac i Dr Ohri am eu caredigrwydd.

DYMUNA Mrs Peri Evans, 5 Hafol Oleu, ddiolch i'w gŵr, Iorwerth, ei theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tra bu'n wael yn yr ysbyty yn ddiweddar.

DYMUNWN wellhad buan i Mr John Hughes, Prenteg, yn dilyn cyfnod diweddar yn yr ysbyty.

Dymunwn wellhad buan i bawb o'r pentref a fu'n wael yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Elli Hughes, Coed Mawr, ar ei llwyddiant diweddar yn pasio arholiad piano, Gradd 1.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAEN GYNFI. Cynhelir yr Eisteddfod eto eleni yn Festri Ebeneser am 1.00 a 6.00 o'r gloch dydd Sadwrn, 25 Hydref 2008. Mae testunau'r Eisteddfod ar gael yn awr. Dewch i gefnogi.

MERCHED Y WAWR. Daeth nifer dda ynghyd i gyfarfod cyntaf y tymor. Croesawodd Brenda, y Llywydd, ddwy aelod newydd, sef Falmi a Pat.

Cydymdeimlwyd â Margret Ellen yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn ddiweddar.

Y wraig wâdd oedd Mair Penri o'r Parc, ger y Bala. Roddodd

sgwrs ddifyr i ni am ei phlentyndod ym Maldwyn, am ei dyddiau ysgol, mynd i'r coleg ym Mangor ac yna i Wrecsam lle y cyfarfu â'i phriod ac, ar ôl priodi, symud i fyw i Lanuwchllyn cyn ymfudo i'r Parc. Cafwyd ganddi adroddiadau digri yn ogystal â rhannau o ddramâu lle roedd yn newid ei gwisg i gydfeind â'r rhannau hynny. Yn sicr, cafwyd gwledd ganddi fydd yn aros yn y cof am amser maith.

Diolchwyd iddi gan Brenda a llongyfarchodd hi ar ran y gangen am ei llwyddiant yn derbyn medal Syr T.H. Parry-Williams yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn ddiweddar. Cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei ddarparu gan yr aelodau.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen yn cael ei gynnal yn Tŷ Elidir ar 20 Hydref am 7.00 o'r gloch pryd y disgwylir cwmni gemwaith 'Tlws'.

Croeso cynnes i aelodau newydd. Tydi hi ddim yn rhy hwyr i ymaelodi.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Yng nghyfarfod cyntaf y tymor, y Cynghorydd W.O. Jones, y Felinheli oedd y gŵr gwadd. Trwy luniau a sgwrs rhoddodd hanes stryd fawr y Felinheli inni yn 1922, pryd oedd 57 o siopau a busnesau yn bodoli. Soniodd am y cymeriadau oedd yn eu rhedeg ac am y newidiadau a ddaeth pan oeddynt wedi peidio â bod, yr effaith o gau y rheilffyrdd a chynnydd trafniadaeth ar drigolion y stryd fawr. Diolchwyd i W.O. Jones gan Dr William Munro.

Ar Sadwrn braf, 13 Medi, aeth taith y Gymdeithas yn gyntaf i Gonwy, lle roedd y Ffair Fêl yn cael ei chynnal. Yna ymlaen i Lanelwy i ymweld â'r Eglwys Gadeiriol gyda'i hanes amrywiol o'i sefydlu yn 560OC. Ar y ffordd adref aros yn Nhrefriw am bryd o fwyd.

Y cyfarfod nesaf fydd: Swper y Cynhaeaf yn Groeslon Tŷ Mawr ar nos Lun, 6 Hydref, y gŵr gwadd fydd Archddiacon Bangor, Meurig Llwyd. Croes cynnes i bawb.

## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

CYDYMDEIMLWN yn fawr fel ardal hefo David a Mary Lloyd Hughes, plant y ddiweddar Katie Lloyd Hughes, a nain annwyl Arwyn, Eilir a Llinos, yn eu profedigaeth lem o golli mam a nain garedig iawn. Boed iddynt gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll hyn. Dymunwn nerth ac iechyd iddynt i'r blynyddoedd a ddol, ac y byddant yn cael edrych yn ôl ar yr amser pleserus a gawsant yng nghwmni eu mam, 'Cledd â min yw claddu mam'.

DIOLCH. Dymuna David a Mary Lloyd, plant y ddiweddar Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian gynt, ddiolch yn ddiffuant iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth fawr o golli mam a nain arbennig iawn. Diolch i swyddogion Plas Garnedd, Llanberis, am eu gofal diflino drosti yn ystod y blynyddoedd y bu yn cartrefu yno. Diolch i'r Parch John Pritchard am ei alwadau i'r Cartref ac am ei arweiniad yn y gwasanaeth ddydd yr angladd. Diolch i'r trefnwyr angladdau, sef Roberts & Owen, Penygroes, am eu gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.

Roedd y rhoddion er cof amdani yn mynd tuag at Ymchwil Alzheimer. Diolch o galon i bawb.

### Teyrnaged

#### Mrs Katie Lloyd Hughes

Gyda deigrin yn fy llygaid a thristwch mawr yr wyf yn gorfod cofnodi marwolaeth y ddiweddar Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian gynt, a fu farw yng Nghartref Plas Garnedd, Llanberis, ar 26 Awst, yn 94 mlwydd oed.

Ganwyd a magwyd hi yma yn yr ardal lle y treuliodd oes gyfan yn gwasanaethu ei phentref a'i chapel. Yr oedd yr ieuengaf o bump o genod ac yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Morris Morris. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Dinorwig, Ysgol Ramadeg Brynrefail ac yna yn y Coleg Normal, Bangor.

Bu yn athrawes yn Ysgol Dinorwig hyd nes i'r ysgol gau yn 1969, yna yn Ysgol Deiniolen hyd ei hymddeoliad.

Nid oes amheuaeth ein bod fel ardal wedi colli gwraig arbennig iawn. Yr oedd yn wraig amryddawn, a'r cyfan wedi ei

wreiddio yn ei chred yn yr Arglwydd Iesu Grist ac yr oedd yn hynod o hyddysg yn ei Beibl a'i Llyfr Emynau.

Fe fu'n hynod o ffyddlon i'r oedfaon a'r Ysgol Sul ar hyd ei hoes, lle yr oedd yn Anti Katie i bawb o'r plant, a mater o raid oedd iddynt ddysgu eu hadnodau a'u penillion erbyn y Gymanfa, doedd dim osgoi hynny.

Ergyd fawr iddi oedd gweld capel ei phlentyndod yn gorfod cau ym mis Mawrth 2000 a hithau wedi mynychu yr addoldy am dros bedwar ugain mlynedd. Ond, er yr ergyd yma, ni cholodd ei ffydd, os rhywbeth cyfoethogodd ei ffydd ac ymaelododd yn ddiymdroi yng Nghewn y Waun. Unwaith eto bu'n ffyddlon i'r oedfaon ac yn barod iawn i wneud yr hyn a allai dros yr achos. Cariodd ymlaen hefo'r plant gan gynnal yr Ysgol Sul yn cael ei yn ei chartref, a bu iddi wneud hyn nes i'w hiechyd dorri i lawr.

Yr oedd ei lle yn wag yn y capel. Yr oedd yn andros o golled i'r Eglwys yng Nghewn y Waun ac mae'n anodd credu y gall neb lenwi'r bwlch y mae wedi ei adael. Y mae pobol fel hyn yn andros o brin.

Bu iddi ennill Medal Gee am ei gwasanaeth diflino i'r Ysgol Sul a cafodd ei chyflwyno hefo'r fedal yng Nghapel Mawr Porthaethwy.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlogfa Bangor. Roedd y capel yn llawn a hynny'n arwydd o barch yr ardal tuag ati.

Yr oedd y gwasanaeth dan ofal ei gweinidog, y Parchedig John Pritchard, a chynorthwywyd ef gan y Parch Eifion Williams, Llanfairfechan; y Parch Eric Jones, Bangor; Y Parch Geraint Roberts, Porthaethwy, a ffrind annwyl iddi, y Parch William John Lewis, Gaerwen (un o blant yr ardal). Claddwyd ei gweddillion ym Mynwent Macpelah, Deiniolen, hefo'i diweddar ŵr, Mr Tommi Lloyd Hughes.

Yn ystod ei bywyd fe fu i Mrs Hughes weld dipyn o galedi, ond er hyn ni cholodd ei ffydd na'i chred. Heddwch i'w llwch a diolch am gael cydweithio a cherdded rhan o'r daith hefo hi. Diolch i Dduw am gael ei hadnabod a'i benthyg, ac fe erys y cof amdani am flynyddoedd i ddod.

MARIAN JONES

## Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn  
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen  
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ALL700

**AGE**  
Concern

Os bydddech yn cysylltu a swyddfa Age Concern, bydddech yn ymwneud a chynnyrcholodd perodedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACent wedi ei awturdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfnglyd yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrddig.

## DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)  
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren



# YSGOL BRYNREFAIL

Ble'r Aeth yr Haf?! Mae'r haf codog gawson ni bellach yn angof, a dyma ni rwan ar ddechrau blwyddyn newydd yng nghalendr yr ysgol. Eleni mae'r ysgol dan ei sang, gyda thros 150 o ddisgyblion yn ymuno â ni ym Mlwyddyn 7. Croeso cynnes i bob un ohonynt atom ac edrychwn ymlaen at ddod i adnabod pob un yn ei dro.

## Eisteddfod yr Ysgol

Y dyddiad pwysig cyntaf yw Hydref 23ain - dyddiad Eisteddfod yr Ysgol. Mae'r ymarferion eisoes wedi dechrau ac mae'r bwrwm ar gynnydd bob dydd! Eleni, am y tro cyntaf, yn wyneb rheolau newydd parthed Iechyd a Diogelwch, bydd cyfyngiadau arnom ynghylch y niferoedd a ganiateir yn y neuadd, ac felly bydd yn rhaid gwerthu tocynnau ar gyfer yr eisteddfod. Byddant ar werth o'r ysgol o flaen llaw, felly cyntaf i'r felin...

## Prif Ddisgyblion

Llongyfarchiadau gwresog i'r canlynol ar gael eu hethol yn brif ddisgyblion am eleni.

Gethin Phillips, Penisarwaen a Lowri Jones, Bethel fydd y Prif ddisgyblion. Bydd Lois Angharad, Penisarwaen, Iona Speake, Y Felinheli, Siôn Emyr, Penisarwaen ac Iwan Williams, Llanberis yn ddirprwyon

iddynt. Dyma ychydig o'u hanes:

**Gethin.** Y mae Gethin yn astudio Cemeg, Cymraeg a Bioleg yn y chweched dosbarth ac yn mwynhau chwarae pêl-droed a chymdeithasu. Am gael ei ddewis yn brif ddisgybl meddai:

'Mae hyn yn golygu llawer i mi. Sioc enfawr oedd cael ar ddeall fy mod wedi cael fy enwebu, heb sôn am gael fy ethol. Rwy'n edrych ymlaen at gynrychioli'r ysgol dros y flwyddyn nesaf.'

**Lowri.** Y mae Lowri yn dilyn cyrsiau Cymraeg, Bioleg a Chemeg ac yn mwynhau chwarae pêl-rwyd, cerddoriaeth a chymdeithasu. Gobeithia ddilyn cwrs Cemeg yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf.

**Lois Angharad.** Cymraeg, Hanes a Drama yw pynciau Lois, ac mae hi'n mwynhau pob agwedd o fywyd y chweched dosbarth. Gobeithia fynd i'r brifysgol yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf.

**Siôn Emyr.** Cymraeg, Hanes a Drama yw pynciau Siôn hefyd ac mae o'n mwynhau actio, chwarae pêl-droed, darllen, hanes Ewrop a chymdeithasu. Mae'n edrych ymlaen yn arw at gefnogi Gethin eleni.

**Iona.** Mae Iona yn dilyn cyrsiau gwyddonol yn y chweched dosbarth a'i bryd ar ddilyn gyrfa mewn milfeddygaeth. Gobeithia

fynd i Brifysgol Nottingham y flwyddyn nesaf. Yn ei hamser hamdden mae hi'n mwynhau marchogaeth, pysgota, darllen a mynychu Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen.

**Iwan.** Y mae Iwan yn astudio'r Gymraeg, Cerddoriaeth a Hanes ac a'i fryd ar ddilyn gyrfa yn y byd cerddorol. Mae'n mwynhau darllen, cymdeithasu a theithio, ac yn organydd penigamp. Mae'n hynod falch o gael ei ethol gan ei gyfoedion ac yn edrych ymlaen yn arw at y flwyddyn sydd i ddod.

## Cyfeillion yr Ysgol

Mae cyfraniad y Cyfeillion at weithgareddau a chyllid yr ysgol wedi bod yn werthfawr tu hwnt dros y blyneddau. Eleni cyfranasant £2,000 tuag at system deledu cylch-cyfyng yn yr ysgol, £1,800 tuag at gyflenwad ffiltro dŵr yfed ffres i ddisgyblion a staff, yn ogystal â noddi Cystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod yr Ysgol.

Cofiwch hefyd am y Sioe Ffasiynau a gynhelir yn yr ysgol ar nos Fercher, Tachwedd 26ain am 7.00yh. Dewch yn llu!!

## Clwb Cant

Dyma enillwyr lwcus Clwb Cant yr ysgol:

**Gorffennaf 2008:** 1. Lynne Williams, Waunfawr; 2. Dee Edwards, Cwm-y-Glo; 3. Jane O'Donnell, Llanberis.

**Awst:** 1. Jane Pierce, Llanddeiniolen; 2. Manon Gwynedd, Bethel; 3. Eifion

Jones, Ysgol Brynrefail.

**Medi:** 1. Paula Evans, Penisarwaen; 2. Pat Everitt, Ceunant; 3. Ffion Roberts, Llanrug.

## Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Hydref 23ain  
Neuadd Ysgol Brynrefail  
6.30pm

Mynediad trwy docyn

Prisiau mynediad:

£4 Oedolion; £2 Plant

Cefnogwch ein Hysbysebwy

GWASANAETH LLEOL AR GYFER  
PARTIÖN • PRIODASAU  
PEN-BLWYDD  
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO  
MOCHYN**  
AR GYFER  
POB ACHLYSUR

\* Cig o ffermydd lleol

\* Partiön rhwng 40 a 400!

\* Gyda saws afal a stwffin mewn  
rholiau

\* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON  
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

wefan: www.ydyncig.co.uk

## Gwyliau Teulu Gwersyll yr Urdd, Glan-Ilyn



### CYFLE I WNEUD Y CANLYNOL:

- PWLL NOFIO
- CANŴIO
- WAL DDRINGO
- RHWYFO
- HWYLIO
- MYNYDDA a THEITHIAU CERDDED
- BOWLIO DEG
- LLAFNROLIO
- ADEILADU RAFFT
- CWRs RHAFFAU UCHEL
- NEU YMLACIO A GWNEUD DIM BYD!



### DYDDIADAU'R GWYLIAU TEULU

#### Enw'r Cwrs

Cwrs Hydref

Cwrs Calan

Cwrs Pasg 10-12 Ebrill 2009

#### Dyddiadau

24-26 Hydref 2008

30 Rhagfyr-1 Ionawr 2009



### Ffurflen Archebu Gwyliau Teulu

Enw:.....  
Cyfeiriad:.....

Côd Post:.....

Rhif(au) Ffôn:.....

E-bost:.....

Dyddiadau'r Cwrs:.....

Nifer Oedolion:.....

Nifer Plant ac Oedran:.....

Faint sydd angen ei dalu nawr? Dylid talu blaendal o £50 gyda'r cais hwn. Rhaid talu'r gweddill oddi fewn wythnos o gychwyn y cwrs. Sieciau'n daladwy i Urdd Gobaith Cymru.

Gwyliau Teulu, Gwersyll yr Urdd, Glan-Ilyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST

01678541000

glanllyn@urdd.org





## Cyngor Cymuned Llanrug

Cofnodion cyfarfod mis Awst a gynhaliwyd yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug:

Cadarnhawyd y cofnodion blaenorol yn gywir.

**Sgwrs gyda PC Phil Kennedy a PC Michael Couling o orsaf heddlu Llanberis:** Dywedodd PC Couling fod gorsaf Llanberis wedi derbyn 93 galwad am yfed ar y strydoedd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol ers laf o Fehefin, 2008, a bod 8 o'r rhain wedi eu derbyn o Lanrug.

Ymddiheurodd nad oedd ganddo ffigurau am Gwm y Glo. Teimlai pawb fod mwy o achosion yn digwydd ond nad ydynt yn cael eu hadrodd i'r heddlu. Dywedodd PC Couling ei bod hi'n bwysig iawn i gynyddu'r cyfathrebu rhwng y cyhoedd a'r heddlu ac mai'r rhifau ffôn pwysig oedd 01286 673333 neu 0845 6071001 (llinell Gymraeg) neu 0845 6071002 (llinell Saesneg) mewn achosion sydd ddim yn argyfwng, neu 999 mewn argyfwng. Aeth ymlaen i roddi enghreifftiau o pryd y dylid defnyddio'r gwahanol rifau ffôn, a phwysleisio eto y pwysigrwydd o'u defnyddio oherwydd ni all yr heddlu weithredu os nad ydynt yn ymwybodol o'r achosion.

Dywedodd DT ei bod wedi cysylltu gyda'r heddlu o'r blaen gydag e-bost ond nad ydoedd wedi derbyn ymateb iddo. Atebodd yr heddlu drwy ddweud nad oeddynt yn ymateb i e-byst ond dadleuodd DT nad oedd hyn yn glir a pham rhoddi cyfeiriad e-bost os nad oedd sylw yn cael ei wneud ohonynt.

Dywedodd PC Couling eu bod am ddosbarthu holiadur i'r cyhoedd am wasanaeth yr heddlu fel a wnaethpwyd mewn ardaloedd eraill ac am roddi bocs syniadau yn siop Londis yn dilyn llwyddiant bocs fel hyn yn Spar Llanberis. Dywedodd AP y dylid cael un hefyd yn Menter Fachwen i bobl Cwm y Glo.

Gofynnwyd a fyddai yn bosibl i bawb dderbyn cerdyn gyda'r rhifau ffôn pwysig arnynt. Cefnogwyd hyn ac ychwanegwyd y byddai'n bosibl rhoddi'r cardiau hyn gyda chopi o Eco'r Wyddfa. Dywedodd PC Couling y byddai'n cysylltu gyda'r clerc i drefnu bod hyn yn digwydd, gobeithio erbyn rhifyn Hydref o'r Eco.

Diolchwyd i'r ddau heddw as am fynychu'r cyfarfod a gadawsant.

**Adborth gan y pensaer am y prosiect i Ddatblygu Cae Chwarae Cwm y Glo:** Dywedodd BJ fod mwy o ymgynghori ei angen gyda thrigolion Cwm y Glo ac y byddai'n rhoddi mwy o wybodaeth i'r cyngor yn y cyfarfod nesaf.

### Llwybrau Cyhoeddus:

Adroddwyd fod yr is-bwyllgor llwybrau wedi cyfarfod yn ddiweddar a'u bod wedi penderfynu ar y pwyntiau canlynol:

- Dylai pawb edrych ar y llwybrau yn eu hardal eu hunain ac os ydynt yn gweld fod llwybr angen ei dorri, dylid codi'r mater mewn cyfarfod fel bod y clerc yn gallu cysylltu gyda Chyngor Gwynedd a'r contractiwr i'w torri os yw cadarnhad o ad-daliad yn cael ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd.

- Uwchraddio Cefn Llwyd, Pontrug, Llwyn Brain, Prysgol a Cae Rhydan o 4 i 3 a Cae Rhydan i Tŷ Gwyn a Tŷ Gwyn o 3 i 1. Roedd uwchraddio Cae Rhydan i Tŷ Gwyn yn cael ei wneud yn dilyn cais gan ward Caeathro.

- Rhoddi arwyddion newydd ar rai o'r llwybrau – llwybr 68, 21, 22 a 16. Teimlodd aelodau'r is-bwyllgor nad oedd y llwybrau hyn yn cael eu defnyddio gymaint oherwydd y diffyg arwyddion.

- Gofyn i Gyngor Gwynedd dorri coeden a oedd wedi disgyn ar llwybr 24. Cytunodd y Cyngorwyr gyda'r pwyntiau hyn.

**Cynllunio:** Cafwyd cadarnhad fod Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi caniatáu y ceisiadau canlynol:

**C08A/0266/23/LL:** Creu agoriad newydd i gerbydau: Llain o dir rhif 0941 Pen y Cae, Ffordd Llanberis, Llanrug.

**C08A/0418/23/LL:** Codi modurdy unllawr i dŷ newydd: Afon Rhos, Llanrug.

**C08A/0416/23/LL:** Estyniad deulawr ar gefn yr ciddo: 2 Y Bonc, Bryn Bras, Llanrug.

Cafwyd hefyd gadarnhad fod y cais canlynol wedi ei wrthod:

**C08A/0246/23/AM:** Cais amlinellol i godi 1 tŷ – llain o dir cyfagos i Bryn Gro, Cwm y Glo.

Daeth y ceisiadau newydd canlynol gerbron y Cyngor Cymuned:

**C08A/0461/23/LL:** Newidiadau ac estyniad i annedd presennol i greu tŷ deulawr ac ystafell haul

unllawr ar ei flaen: Y Dalar Deg, Ffordd yr Orsaf, Llanrug: Dim gwrthwynebiad.

**C08A/0448/23/AM:** Codi un tŷ: tir ger Tŷ Capel, Cwm y Glo: Gwrthwynebu ar y sail nad oes mynedfa addas iddo.

**C08A/0477/23/AM:** Adeiladu tŷ ac addasu'r fynedfa bresennol – llain o dir cyfagos i Talysarn, Crawia, Llanrug. Trafodwyd a oedd y cais hwn y tu allan i'r ffiniau datblygu.

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad tan y cyfarfod nesaf ar ôl ymchwilio i hyn.

**C08A/0505/23/AM:** Codi 1 tŷ fforddiadwy: tir ger Disgwylfa Terrace, Llanrug. Teimlodd y Cyngorwyr nad oedd digon o wybodaeth ar gael i wneud penderfyniad ar y cynllun hwn. Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad tan y cyfarfod nesaf.

**Y Fynwent:** Cafwyd cais gan deulu y diweddar Edward (Ted) Roberts i osod fainc yn y fynwent er cof amdano. Darllenwyd y llythyr a dangoswyd lluniau o ble roeddynt am osod y fainc. Ar ôl trafodaeth fer, penderfynwyd derbyn y cais, yn enwedig am fod y teulu am dalu am hyn, gan gredu y byddai fainc yn y fan honno yn fuddiol iawn i ymwelwyr hyn y fynwent. Addawodd y clerc gysylltu gyda'r perthnasau i gadarnhau penderfyniad y cyngor.

**Gwerthiant Pwll Moelyn:** Dywedodd y clerc fod un gwerthiant bron â chwblhau ac y byddai'r dogfennau yn cael eu harwyddo pan fyddai'r Cadeirydd yn dychwelyd o'i gwyliau. Dywedwyd nad oedd problem gyda'r ail werthiant ond y byddai'n syniad ceisio cyflymu'r broses.

### Cwynion/Pryderon:

a) Trafodwyd y parcio ar Ffordd Glanmoelyn. Gofynnwyd a gafwyd ateb i lythyr blaenorol yn cwyno am y parcio, dywedodd y clerc na dderbyniwyd ateb hyd yma. Penderfynwyd gadael y mater hwn am y tro gan y byddai llawer o drafod i'w wneud am yr ardal hon yn y dyfodol pan fydd y ddau werthiant wedi eu cwblhau.

b) Trafodwyd uno'r elusennau yn fyr.

c) Trafodwyd diffyg arwyddion enwau strydoedd yn Llanrug: y stâd newydd ger Glanmoelyn ac nad oedd yn bosibl darllen yr arwyddion yn Bryn Moelyn, Lôn Groes na Glanmoelyn. Penderfynwyd y byddai'r clerc yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn am arwyddion newydd.

ch) Gofynnodd AP a fyddai'n bosibl gofyn i Gyngor Gwynedd wneud rhywbeth i arafu'r traffig y tu allan i Ysgol Cwm y Glo. Penderfynwyd gyrru llythyr i'r Cyngor yn gofyn hyn.

d) Gofynnwyd a oedd unrhyw ddatblygiadau i'w datgelu ynlgŷn â'r ffordd i osgoi Caernarfon. Dywedodd BJ fod swyddogion

Cyngor Gwynedd yn y broses o gasglu data am nifer o ddefnyddwyr y lonydd ac na fyddai unrhyw beth i'w ddatgelu tan y byddai hyn wedi ei gwblhau.

dd) Holodd MG a oedd Cyngor Gwynedd wedi ymateb i'r llythyr a anfonwyd yn gofyn iddynt pa goed sydd wedi eu gwarchod yn yr ardal. Cadarnhaodd y clerc na chafwyd ymateb ond addawodd y byddai'n gyrru llythyr arall i'w hatgoffa.

**Gohebiaeth:** Ymhlith yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd oedd y canlynol:

- Cydnabod ein llythyr am yr eithin yn tyfu ar lwybr Stad Minffordd. Cadarnhau fod y gwaith am ei wneud cyn i'r ysgol ailagor yn mis Medi. Cadarnhawyd fod y gwaith bellach wedi ei wneud.

- Gwahoddiad i'r Cyngor gyflwyno cais i ariannu prosiect gwerth tua £5,000 o Gist Gwynedd – Cronfa Gwella Gwynedd 2008–09. (Rhaid i'r prosiect gael ei gwblhau a'r arian ei hawlio cyn 31ain o Fawrth 2009. Penderfynwyd gofyn i Mr Dafydd Einion, Swyddog Adfywio Bro, ddod i'r cyfarfod nesaf i drafod y pwnc yma mewn mwy o fanylder.


Ymhlith y gohebiaeth arall a dderbyniwyd oedd y canlynol:

- Brian Gibbons AC – 3 copi o 'Cymuned ar y cyd' – canllawiau terfynol ar fesurau i feithrin cydberthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref.

- Ombwdsman – Holiadur i'w gwblhau ar wasanaeth yr Ombwdsman. Dim am ymateb, ddim yn cael eu defnyddio.

### Materion Brys

Polisi Rheolaeth Risg: Y clerc yn dweud fod yn rhaid i'r cyngor fabwysiadu polisi Rheolaeth Risg er mwyn cydymffurfio gyda gofynnion yr Archwilwyr allanol. Dywedodd y dylai hyn gael ei wneud dros y misoedd nesaf ac addawodd gysylltu gyda Un Llais Cymru am arweiniad yn y mater hwn.



## GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:  
Gatiau, Ffensus ac ati  
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon  
**LLANRUG**

Ffôn: (01286) 674183  
(0589) 899901

**E. W. Pritchard**  
**CENTRAL GARAGE, Llanberis**

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU



## CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Mae dwy sedd wag ar y Cyngor yn ardal Deiniolen. Os oes unrhyw un am gyflwyno ei enw/henw neu enwebu rhywun arall mae croeso iddynt gysylltu â'r Clerc: (01286) 871 416.

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth fudiadau gwirfoddol yr ardal erbyn cyfarfod yr Hydref. Rhaid cyflwyno mantolen ariannol y mudiad gyda'r cais.

Cyfarfu'r Cyngor ar y 9ed o Fedi.

**Gweddi.** Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll Jones

**Cofnodion cyfarfod Gorffennaf.** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Diolchodd Len Jones am gefnogaeth y Cynghorwyr i'r cyfarfod trafod cau Swyddfeydd Post, yng ngwmni Hywel Williams AS yn Neiniolen, ac ymddiheurodd am ddwyn noson arferol y Cyngor Cymuned, cafodd faddeuant!

Dywedodd Len Jones ei fod ar drywydd amserlen 'Dryll' i symud y ceir oddi ar ochr y ffordd. Mae ceir yn dal i barcio yno wrth ymyl y tai cyfagos, a nifer o fwsiau mini yn dadlwytho yr un pryd.

**Materion o'r cofnodion** Cadarnhawyd y taliad o £771.25 i Wynedd am gostau'r etholiad.

Danfonwyd copi o Rhwydwaith Beicio Peris, Dafydd Whiteside Thomas, ymlaen llaw i bob aelod. Nid oedd unrhyw sylwadau.

**Pileri llechi:** atebodd Dr Dafydd Roberts, Amgueddfa Lechi Cymru, mai CADW a restrodd (listed) lechi tebyg ym Mynydd Llandegai rai blynyddoedd yn ôl. Nid oedd ateb i law oddi wrth CADW.

**Cais am 20mya ym mhentref Seion:** ateb Dewi Rowlands oedd ei fod wedi anfon yr ohebaith ymlaen i Aled Davies ac ateb Aled Davies oedd ei fod wedi ei ddanfoni i Dafydd Wyn Williams ond nid oedd ateb oddi wrth D.W. Williams yn dweud pwy sy' nesa ar y rhestr!!

**Y ffordd i fyny i Rhiwlas.** Cwblhawyd y gwaith ailwynebu ac awgrymodd Hefin Williams ddiolch i Wynedd a'u llongyfarch am waith da.

**Lôn Castell.** Dywedodd Hefin Williams bod y gwrychoedd wedi gordyfu ac yn crafu ceir - llythyr i Wynedd. Mae'r un peth yn wir hefyd ar hyd ffordd Fachwen, Dinorwig.

**Tai fforddiadwy.** Dywedodd Huw P. Hughes nad oes modd cwtogi'r holiadur gan mai dyna'r ffurf y mae'r Cynulliad ei angen. Derbyniwyd sylw Mrs Larsen, nad yw'r cwestiwn pwysicaf oll yn yr holiadur, a phenderfynwyd sicrhau bod Gwynedd yn ei gynnwys yn

nechrau'r holiadur - 'A fydd rhywun o'ch teulu neu eich teulu estynedig yn debygol o fod â'r adnodd i brynu tŷ maes o law?'

Trafodwyd y prisiau y byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu i Wynedd am argaffu, postio a derbyn yr holiaduron:- Argraffu a deunyddiau 2,150 o holiaduron: £1,000. Postio allan: £800. Derbyn yn ôl, ar sail 35% o atebion: (750): £200. Llwytho data 750 ateb, 40c yr un: £300. Cyfanswm o £2,300.

Trafodwyd eto y posibilrwydd o'r aelodau yn eu danfon o dŷ i dŷ ac amlygwyd yr anhawsterau mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell. Dywedodd Huw P. Hughes y buasai'n ymarferiad da i fynd o gwmpas i'w rhannu. Awgrymodd Merfyn Morris eu cludo i dai cyfleus a'u postio i'r lleill.

Amlygwyd bod talu cymaint i Wynedd am grynhoi'r wybodaeth mae'r Cyngor hwnnw a'r Cynulliad eu hangen yn afresymol. Dywedodd Len Jones nad oes rheswm i'r Cyngor dalu Gwynedd am argaffu.

Penderfynwyd hysbysu Gwynedd y buasai'r Cyngor yn fodlon ystyried cyfraniad rhesymol at bostio a gofyn faint fuasai hynny ac a oes grant i'w gael at y math yma o ohebiaeth.

**Y Côt Ymddygiad Newydd** Derbyniwyd y côd newydd.

**Cyhoeddi hanes yr ardal.** Dywedodd Huw P. Hughes a Len Jones bod ganddynt bentwr o hanesion. Gormod o lawer i'w cynnwys ar daflen syml a buasai'n anodd dethol. Awgrymwyd cyhoeddi llyfryn yn hyrach na phamphled. Gofynnodd Huw P. Hughes am gael map A3 neu fwy yn dangos llwybrau'r gymuned i gyd. Cyfeiriodd Hefin Williams at y grŵp a ffurfiwyd eisioes, beth am ailffurfio'r grŵp i ddidol yr hanes a thrafod gyda Gareth Roberts.

Penderfynwyd gofyn i Wynedd am y mapiau a gwahodd Gareth Roberts i'r cyfarfod nesaf.

**Cynllun Unedol Gwynedd** Y farn gyffredinol oedd bod angen tir i adeiladu cartrefi pan fo plant eisiau aros yn eu cynefin, dyna fyddai'n cadw'r pentref'n fyw. Penderfynwyd cyflwyno'r canlynol i Wynedd:

**Lleoliadau sydd angen eu cynnwys oddi fewn i'r linell gynllunio:**

**Penisa'rwaun:** 1. Tir y tu ôl i'r fynwent, lle bu cais am dri thŷ;

2. Llys Gwynt;

3. Waun, Penisa'rwaun.

**Bethel:** Perygl y neulltuir tir ar gyfer tai fforddiadwy lle mae tir ar gael oddi fewn i'r ffin gynllunio.

**Rhiwlas a Carfan:** Mae

anghenion lleol ac y mae amryw o furddunod y gellid eu datblygu'n aneddu. Buont yn gartrefi o'r blaen, pam peidio eu defnyddio eto?

**Brynrefail:** 1. Tir ger Pont Brynrefail;

2. Tir o gwmpas Llwynhelyg;

3. Tir Cyttir;

4. Ailgynnwys y lleoliadau o gwmpas y pentref a oedd o fewn y llinell yng nghynllun 2004;

5. Gadawyd adwy wrth adeiladu tai Trem Eilian ar gyfer datblygiad yn y dyfodol, beth yw'r sefyllfa yno erbyn hyn? Ai Cyngor Gwynedd yw'r perchnogion o hyd?

**Deiniolen:** Nid oes angen datblygu, mae amryw o dai yn y pentref ar werth ar hyn o bryd.

**Clwt y Bont:** Nid oes lle i ddatblygu.

Pwysleisiwyd eilwaith ar yr angen i ddatblygu murddunod ar gyfer anghenion lleol yn hytrach na thai haf.

**Gohebiaethau Eraill**

**Y Bwrdd Dŵr.** Dywedodd Aled Green bod iawndal y Bwrdd Dŵr o £25 am ferwi'r holl ddŵr yn annerbyniol a bod cyflwr y dŵr fel arall yn ddrwg. Ychwanegodd Mrs Larsen bod yr ardaloedd y gofynnwyd iddynt ferwi dŵr mewn cangymeriad am ychydig ar y dechrau hefyd i dderbyn yr iawndal. Dywedodd Len Jones bod y Bwrdd wedi addo, dair mlynedd yn ôl, na ddigwyddai hyn eto. Rhaid iddynt fonitro yn well. Gofynnodd Hefin Williams pam na ellir cyflenwi dŵr o Cwellyn pan fo rhywbeth o'i le ym Mynydd Llandygai ac fel arall. O Cwellyn y deuai'r dŵr i'r ardal yma erystalwm. Ychwanegodd ei bod bron yn amhosibl mynd drwodd i'r linell ffôn Gymraeg.

Penderfynwyd adrodd ar hyn i Bencadlys y Bwrdd yn Nelson. **Cist Gwynedd.** Mae mwy o arian ar gael i Gynghorau Cymuned. Awgrymodd Len Jones i'r Cyngor geisio defnyddio hwn at gyhoeddi hanes yr ardal. Gofyn i Dafydd Einion Jones weithredu ar ein rhan.

**Afon Goch, Deiniolen.** Ceisiwyd, heb lwyddiant, gael gwybod beth oedd yn digwydd yno yn Ionawr 2005. Yn ddiweddar bu merch, oddeutu 14oed sy'n cartrefu yno, yn mynychu caeau chwarae Rhydfadog, Hafod Olau a Chlwt y Bont. Gofynnwyd, yn ystod mis Awst, i Adran yr Amgylchedd Gwynedd, Adran Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Gwynedd ac i'r Heddlu am wybodaeth ac am sicrwydd o ddiogelwch y lle. Derbyniwyd ateb Mr Aled Davies, Adran yr Amgylchedd, yn dweud ei fod wedi anfon y cais ymlaen i Mr Hywel Thomas ond nid oedd ateb. Derbyniwyd y canlynol oddi wrth yr Adran Datblygu, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd:

'Mae'r uned yn eiddo i Afon Goch Children's Homes Ltd, sydd yn fusnes preifat. Nid oes gan Gyngor Gwynedd unrhyw berson ifanc wedi ei leoli yno Byddai Cyngor Gwynedd yn dod i gysylltiad gyda'r uned mewn achosion amddiffyn plant yn unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, sydd yn datgan fod cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol, lle mae plentyn yn byw neu yn aros, i ymateb a gweithredu yn dilyn derbyn cyfeiriad. Nid oes gan Gyngor Gwynedd unrhyw gyfrifoldeb monitro nac adolygu'r gwasanaeth. Y person cyswllt ar gyfer unrhyw drafodaeth ynglŷn ac Afon Goch



www.fframia.com

**FFRAMIA**


**Parc Padarn, Llanberis**

**(01286) 870922**

**Gwasanaeth Fframio Lluniau**

**Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan**

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.



**J.M. JONES**

*a'i Feibion*

**LLANRUG**

**Gwaith Coffaol**

**Ffon Gwaith**

**01286 672898**

**Cartref**

**01248 679089 • 01286 830996**

**Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA**



yw John Nutley, sydd yn arolygwr gyda'r ASGC. Mae wedi ei leoli yn Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Llandrillo yn Rhos, LL28 4UL a'i rif cyswllt yw 01492 542580.'

Crynodeb o ateb Y Prif Uwcharolygydd Geraint Anwyl yw: 'Ymddengys bod y cartref yn cael ei redeg mewn ffordd dderbyniol ac ychydig o alw sy' arnom fel Heddlu i fynd yno. Mae'r cartref yn cydnabod y buasai mwy o gysylltiad er mwyn rhannu gwybodaeth yn llesol i bawb. Hyderaf y byddwch yn derbyn mwy o fanylion yn y man.'

Rhyfedd cael yr holl wybodaeth yma gan Wynedd rwan ond drws caeedig ym 2005.

Dywedodd Richard Llwyd Jones y dylai Gwynedd fonitro lle fel yma, pe bai dim ond o ran diogelwch tân a.y.y.b. Ychwanegodd Mrs Larsen a Philip Jones bod angen gwybod mwy am yr hyn sy'n mynd ymlaen yno. Penderfynwyd cefnogi Len Jones trwy ofyn i Hywel Williams AS i bwyso am newid y ddeddf fel na chaniateir cartrefi drwgweithredwyr o ardaloedd eraill mewn tŷ cyffredin ac mewn ardal wledig.

Dywedodd Aled Green bod y contractwyr a ddefnyddir gan Wynedd i insiwleiddio tai yn dod o Fanceinion. Pam na ellir defnyddio busnesau lleol - llythyr i Wynedd.

#### Cynllunio

Tir gyferbyn â Rhoslan, Bethel: mae apêl wedi ei wneud ar y cais yma er nad yw wedi ei benderfynu. Lluniwyd ymateb Cynghorwyr Bethel gan Richard Ll. Jones, fe'i danfonir ymlaen i Wynedd yn enw'r Cyngor.

#### Ceisiadau a dderbyniwyd:

Cefn y Waun: addasu'r Capel a'r festri i ddau uned breswyl.

Drws y Gwynt, Clwt y Bont: codi sied ardd.

Buarth Newydd, Dinorwig: estyniad deulawr.

Inglennook, Rhiwlas: dymchwel y tŷ a chodi tŷ newydd.

8, Stryd Newydd, Deiniolen: estyniad a modurdy yn y cefn.

#### Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Tir ger Tŷ Oer, Clwt y Bont: adeiladu tŷ, rhodfa a gwelliannau i'r fynedfa.

5, Craig Dinas, Cwm y Glo: dymchwel ac adeiladu annedd newydd a modurdŷ.

9, Rhes Cynfi, Deiniolen - adeiladu modurdy.

Hafodty, Rhiwlas: estyniad.

Tir tu cefn i Bro Rhiwen, Rhiwlas: cais amlinellol i godi un annedd.

Maes Parcio Gors Bach, Bethel: (cais ôl-weithredol) newid defnydd o Faes Parcio i safle gwerthu ceir.

#### Cais a wrthodwyd gan Wynedd:

Llain o dir cyfagos i Rhiw Goch Clwt y Bont: adeiladu tŷ a mynedfa.

#### Llwybrau

Dywedodd Len Jones bod angen llawer mwy o arian i wella cyflwr llwybrau cyhoeddus. Buasai'n bwynt dilys i'w gyflwyno yng

nghynhadledd Un Llais Cymru gan bwyso ar Lywodraeth y Cynulliad am fwy o gyllid.

Cyfeiriodd Huw P. Hughes eto at yr angen am olau cyhoeddus ar y polyn telathrebu ger ystâd Cremlyn, Bethel. Hefyd angen i Wynedd dorri coed a thyfiant ar y llwybr o Bryn Pistyll i Seion. Dywedodd Len Jones bod yr un angen ar lwybr 42 heibio'r hen Ficerdy, Deiniolen, a'i gynnwys o hyn ymlaen ar y rhestr torri gwair. Ychwanegodd Philip Jones bod angen gât o'r ffordd fawr i'r llwybr yma ger yr Eglwys.

#### Materion ychwanegol

Dywedodd Richard Ll. Jones bod mwy a mwy o ymwelwyr yn mynychu'r Amgueddfa Lechi ond ychydig (os rhywfaint) o gyfeiriad sydd yno at Graig yr Undeb - llythyr i Dr Dafydd Roberts.

Cyfeiriodd Len Jones at lwyddiant ysgubol disgyblion Dafydd Brailsford yn y Gemau Olympaidd, gan ofyn i'r Clerc, ar ran y Cyngor, ei longyfarch fel cyn-ddisgybl o ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 14eg o Hydref.

## Y TRO CYNTAF I GAERNARFON


Am y tro cyntaf yng Nghaernarfon perfformir gwaith Robat Arwyn 'Er Hwyllo'r Haul', sef hanes Llywelyn Ein Llyw Olaf, Tywysog Cymru. Perfformir y gwaith gan Gôr y Waun o'r Waunfawr. Llwyddodd y Côr i ddenu'r unawdwyr enwog, Iwan Wyn Parry, sy'n enedigol o'r Groeslon, ynghyd ac Alwen Derbyshire i ymuno â hwy. Mae Alwen yn chwaer i Gwenda Griffith, Arweinydd y côr. Y Llefarydd fydd Norman Williams.

ER HWYLIOR HAUL



ROBAT ARWYN

ER HWYLIOR HAUL



ROBAT ARWYN

ER HWYLIOR HAUL



ROBAT ARWYN

ER HWYLIOR HAUL



ROBAT ARWYN

# Côr y Waun yn cyflwyno Er Hwyllo'r Haul

(gan Robat Arwyn)

yng nghwmni

**ALWEN DERBYSHIRE** (Soprano)

**IWAN WYN PARRY** (Bariton)

**NORMAN WILLIAMS** (Llefarydd)



**GALERI CAERNARFON**  
Nos Sadwrn 18 Hydref am 7.30

Mynediad £12. • Pensiynwyr a Phlant £10.

TOCYNNAU AR WERTH YN *Galeri* CAERNARFON  
NEU GAN AELODAU'R CÔR (01286) 650545

Yr Elw er budd AMBIWLANS AWYR CYMRU

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

I drin a thrwsio  
pob math o  
beiriannau gwnïo  
**MENAI SEWING  
MACHINE CENTRE**

33 Stryd Fawr  
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau  
ac ati mewn stoc



## Taith Côr Meibion Dinas Bangor i Wlad Belg



Fel un o weithgareddau dathlu ugeinfed pen-blwydd sefydlu'r Côr, aethant ar daith i Wlad Belg ar ddechrau Medi i gynnal cyngerdd yn Theatr Brel ym Mrwsel i Gymdeithas Cymry Brwsel. Cynhaliwyd y cyngerdd

ar nos Sadwrn, 13 Medi, ac roedd y neuadd yn llawn. Cafwyd cyngerdd hynod o safonol efo James Griffiths yn arwain ac, yn absenoldeb Lowri Roberts Williams, y cyfeilydd oedd Gwilym Lewis. Yr

unawdydd oedd y mezzo soprano, Eleri Owen.

Ar ddydd Sul, 14 Medi, aeth y Côr ar daith i ymweld â mynwent Artillery Wood ger Ypres, lle claddwyd Hedd Wyn yn 1917 ar ôl brwydr fawr Pilkem Ridge. Yn ystod yr ymweliad cafwyd anerchiad byr a phwrpasol gan Gwyn Hefin Jones, y Cadeirydd, ac yna darllenwyd 'Rhyfel' o waith y bardd gan Gwyneth Jones, priod un o'r aelodau, cyn i Norman Evans osod torch o'i wneuthuriad ei hun ar ran y Côr ar y bedd. Yna i gloi canodd y Côr englynion coffa R. Williams Parry i Hedd Wyn. Yr oedd hwn yn gyfarfod llawn teimlad a pharch at y golled fawr, nid yn unig o golli Hedd Wyn, ond hefyd y miloedd o fechgyn ifanc

eraill yn y gyflafan fawr.

Ar y ffordd o'r fynwent gwelwyd cofeb ar fur ty sydd ger y fan lle lladdwyd y bardd. Ar ôl cyrraedd Ypres cymerwyd rhan yn y seremoni ddyddiol am 8 o'r gloch y nos o ganu'r 'Last Post', lle mae enwau 55 mil o filwyr nad oes ganddynt fedd wedi eu cofrestru.

Dychwelwyd yn ôl i Gymru ar ddydd Llun, 15 Medi, ar ôl penwythnos fythgofiadwy.

## PYTIAU

Llongyfarchiadau i Maldwyn Williams (KMP) ar gael ei apwyntio yn un o'r dyfarnwyr cynorthwyol yn y gêm Cwpan y Byd rhwng Andorra a Croatia yn ddiweddar. Mae cryn brinder o ddyfarnwyr ar hyn o bryd. Beth am fentro? Yn amlwg, o weithio arni mae cyfleoedd i deithio. Buasai Keith Owen, Waunfawr, yn falch o glywed gennych a'ch rhoi ar ben ffordd.

\*\*\*

Siomedig fydd Llanberis a Llanrug o golli eu gemau yng Nghwpanau Cymru a'r FWA. Y Gynghrair amdani felly, heb gemau mawr i edrych ymlaen amdanynt eleni.

Cofiwch ddefnyddio

### SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

**ORIAU AGOR**

6 a.m.-7.30 p.m.

(Llun-Sadwrn)

6 a.m.-3 p.m. (Sul)

### LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

**WAUNFAWR**

Ffôn/Ffacs:

(01286) 650291

**Ar Agor**

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

**Ar Gau**

Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI  
GYDA STIMVAK**

## R.M. (DIC) PARRY

**PEINTIWR AC ADDURNWR**

**PRISIAU RHESYMOL**

**TAWELFA, PENISARWAUN**

**Ffôn: (01286) 870846**

## CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

**LLANRUG**

**677362**

neu symudol

**07979**

**620996**

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

**Cefnogwch  
ein  
Hysbysebwy**

## ARVONIA



- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triapiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvoniaco.uk

Gwefan: www.arvoniaco.uk



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI  
CELTIC** WINDOWS

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS  
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad  
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN  
LLANRUG LL55 2RG**



**(01286) 678618** (dydd)

**(01248) 670081** (nos)



**SNOWDONIA PARC**

**WAUNFAWR**

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

**Ffôn: 650218**




# CHWARAEON

## POTIO DROS GYMRU

Dros y blynyddoedd rwyf wedi ceisio tynnu sylw at bawb o'r fro sydd wedi cynrychioli Cymru. Yn wir rwyf wedi rhyfeddu at y nifer eang o gampau a gynrychiolwyd ganddynt.

Braf yw croesawu dau arall, a hynny o fyd snwcer. Y ddau dan sylw yw **Pete Roscoe** o Lanrug a **Daniel Fletcher** o Lanberis.



Oddi wrth y bwrdd mae'r ddau yn cyd-weithio gyda chwmni DMM. Maent hefyd yn gydaelodau o dîm snwcer Caernarfon Cons. yng nghynghrair Bangor a'r Cylch.

Nid oedd yn rhaid i'r ddau deithio'n bell i ennill eu cap – draw ar hyd yr A55 i Ganolfan Snwcer Pontins ym Mhrestatyn. Daeth y ganolfan hon yn fangre bwysig canys yma y chwaraeir nifer o rowndiau rhagbrofol y cystadlaethau mawr fel Y Byd a phencampwriaeth Prydain.

Yr achlysur y tro yma oedd ymgiprys am y Bencampwriaeth Gartref 2008. Roedd wyth tîm yno: Cymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Eire, Ffrainc, Ynys Manaw ac Ynys Guernsey. Drwy guro Ffrainc, Guernsey, Ynys Manaw a'r Alban, a chael gêm gyfartal yn erbyn Eire, gorffennodd Cymru yn y pedwerydd safle. Yr enillwyr oedd Lloegr.

Dros y gystadleuaeth enillodd Pete 12 ffrâm a cholli 9, ac enillodd Daniel 11 ffrâm a cholli 10.

Llongyfarchiadau i'r ddau ac mewn bro ble mae'r gêm yn boblogaidd ymysg yr ifanc, braf gweld dau yn cyrraedd y brig.

## RHAI O BENCAMPWYR TLWS YR ECO 2008



Tîm Pêl-rwyd Blwyddyn 6 Ysgol Llanrug – Pencampwyr Tlws yr Eco 2008.



Tîm Pêl-rwyd Blwyddyn 4 Ysgol Llanrug – Pencampwyr Tlws yr Eco 2008.

## DAU DÎM YN UNO AM ELENİ



Capten Bethel, Daniel Bell, yn cyflwyno tlws i gapten Harrogate Railway.

Wedi cryn lwyddiant y tymor diwethaf mae dau dîm dan 15 Bethel wedi uno i ffurfio un tîm dan 16 eleni. Y rheolwyr fydd Paul Williams ac Andy Bell. Hoffai'r tîm ddiolch i Andrew Williams am ei arweiniad – a'i lwyddiant – gyda'r bechgyn dros y tymhorau.

Cafwyd dechreuad boddhaol i'r tymor gyda thair gêm cyn-dymor yn erbyn timau o Fôn. Chwalwyd Llandegfan 12-0 a churwyd Llangefni 4-0, y ddwy gêm oddi cartref. Cafwyd gêm mwy cystadleuol mewn gêm gyfartal 4-4 gyda Teigrod Porthaethwy.

Codwyd y safon o dipyn pan groesawyd clwb teithiol Harrogate Railway i Gae Coed Bolyn. Hwyl oedd pencampwyr Cynghrair Swydd Efrog y tymor diwethaf. Gwelais y gêm, ac roedd y safon yn dderbyniol iawn. Roedd maint corfforol a symudiadau oddi ar y bêl yn ffactorau amlwg ym muddugoliaeth yr ymwelwyr o

3-0, ond perfformiad da gan Bethel.

Fel arfer rhoed croeso da i'r ymwelwyr a diolch i Cled a Susan o'r Post a staff y Bedol am eu paratodau trylwyr gyda'r lluniaeth hanner amser ac wedi'r gêm.

Unwaith eto eleni bydd y bechgyn ar daith o gwmpas y gwahanol dwrnameintiau, gan gynnwys amddiffyn tlws y gystadleuaeth yn Blackpool. Roedd wyth o aelodau carfan Bethel – **Gwion Williams, Ryan Jones, Gruffydd John, Tomos Emlyn, Liam Williams, Adam Hughes, Alex Jones a Joseph Holding** – yng ngharfan Academi Dinas Bangor a gollodd yn rownd gyn-derfynol Twrnament Rhyng-wladol yr Amwythig, i Oldham Athletic.

Mae Tomos Emlyn a Daniel Bell ar dreial gyda Oldham, a gwahoddwyd Daniel i ymarfer gyda Manchester United, West Brom, a Wrecsam. Pob lwc iddynt.



Tîm Llewod Llanrug 'A' – enillwyr Tlws yr Eco 2008 dan 11, a sawl tlws arall.